Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 54/2026

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2026

# Dysgu Sylfaen yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83745-368-9

Dysgu Sylfaen yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol

Awduron: Brett Duggan, Martin Jones, Dr Felicity Morris (Ymchwil Arad), Yr Athro David Egan (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Duggan, B; Jones, M; Morris, F; Egan, D (2026). Dysgu Sylfaen yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 54/2026.

Ar gael yn: [https://www.llyw.cymru/dysgu-sylfaen-yn-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaeth-ansoddol](https://www.llyw.cymru/dysgu-sylfaen-yn-y-cwricwlwm-i-gymru-astudiaeth-ansoddol)

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Cangen Ymchwil Cwricwlwm

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Rhif ffôn: 03000253213

E-bost: [ymchwil.cwricwlwm@llyw.cymru](mailto:ymchwil.cwricwlwm@llyw.cymru)

## Cynnwys

Geirfa 3

1. Cyflwyniad....4

1.1. Cefndir y diwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru....4

1.1.1. Cynllunio a gwireddu cwricwlwm....5

1.1.2. Asesiad....6

1.2. Trosolwg o'r Astudiaeth Ansoddol o Ddysgu Sylfaen....7

2. Methodoleg....8

2.1 Recriwtio a sampl....8

2.2 Dulliau ymchwil....9

2.3 Dadansoddiad....10

2.4 Cyfyngiadau....11

2.5 Nodyn ar gyflwyno'r canfyddiadau....12

3. Canfyddiadau....13

3.1.1. Crynodeb....13

3.1.2. Pwyslais ar gynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr....14

3.1.3. Ymgorffori cyd-destun lleol yn y broses o gynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen....15

3.1.4. Cynllunio dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a dysgu dilys....16

3.1.5. Defnyddio cymysgedd o ddulliau i adlewyrchu addysgeg y blynyddoedd cynnar wrth gefnogi sgiliau trawsgwricwlaidd....17

3.1.6. Mae cynllun y cwricwlwm yn cael ei ddylanwadu gan ddealltwriaeth ysgolion o ymarfer sy'n addas i ddatblygiad, sy'n aml yn cael ei lywio gan y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir....19

3.1.7. Ymgorffori egwyddorion datblygiad plant yn y broses gynllunio....19

3.1.8. Dylanwad anghenion cymorth cynyddol dysgwyr ar gynllunio cwricwlwm....20

3.1.9. Dysgu sylfaen fel blaenoriaeth ar gyfer gwella ysgolion....21

3.2. Addysgeg....22

3.2.1. Crynodeb....22

3.2.2. Dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a dysgu drwy brofiad....22

3.2.3. Dysgu yn yr awyr agored fel nodwedd allweddol mewn addysgeg....23

3.2.4. Ymarfer sy'n seiliedig ar arsylwi....24

3.2.5. Ymarferwyr fel oedolion sy'n galluogi dysgu....26

3.2.6. Enghreifftiau o newidiadau i addysgeg a godwyd ar draws y sampl o ysgolion 27
3.3. Cynnydd ac asesu ....28
3.3.1. Crynodeb ....28
3.3.2. Dulliau o asesu ....29
3.3.3. Datblygiad plant ....31
3.3.4. Safbwyntiau ar asesu....32
3.4. Canllawiau a chymorth ....33
3.4.1. Crynodeb ....33
3.4.2. Cymorth ar lefel ranbarthol a lleol ....33
3.4.3. Defnyddio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ....34
3.4.4. Canllawiau Galluogi Dysgu ....35
3.4.5. Mae angen canllawiau pellach ....35
3.5 Dysgu proffesiynol....36
3.5.1 Crynodeb....36
3.5.2 Ffynonellau dysgu proffesiynol....36
3.5.3 Bylchau yn y ddarpariaeth dysgu proffesiynol bresennol ....37
3.5.4 Cydweithio rhwng ysgolion ....38
3.5.6 Anghenion dysgu proffesiynol yn y dyfodol....38
4 Casgliadau ....40
4.1. Casgliadau'n ymwneud â Chwestiwn Ymchwil 1 ....40
4.1.1. Dylunio a chynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen ....40
4.1.2. Addysgeg ....41
4.1.3 Cynnydd ac asesu....42
4.2. Casgliadau sy'n ymwneud â Chwestiwn Ymchwil 2 ....43
4.2.1. Canllawiau a chefnogaeth ....43
4.2.2. Dysgu proffesiynol....44
4.3 Meysydd i'w hystyried....45
Cyfeiriadau....47
Atodiad A: Canllaw holi ....48
Atodiad B: Sampl ysgolion ....54

# Geirfa

**ADY**

Anghenion Dysgu Ychwanegol

**CA**

Cynorthwyydd Addysgu

**CALU**

Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch

**MDPh/Maes**

Maes Dysgu a Phrofiad

**OECD**

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

**SRhC**

Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arad i arwain gwerthusiad ffurfiannol o’r Cwricwlwm i Gymru. Mae Ymchwil Arad yn gweithio ochr yn ochr â nifer o sefydliadau fel rhan o raglen ymchwil eang, gan gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Stirling, Prifysgol Auckland ac AlphaPlus Consultancy Ltd.

Mae'r gwerthusiad yn defnyddio dulliau cymysg, gan gynnwys arolygon o ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr, astudiaethau achos hydredol i ddeall teithiau ysgolion o ran gwireddu’r cwricwlwm, a sawl astudiaeth ansoddol yn seiliedig ar bynciau sy'n archwilio elfennau penodol o’r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil ansoddol ar Ddysgu Sylfaen, dan arweiniad Ymchwil Arad a chyda chefnogaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 1** yn rhoi trosolwg o'r gwerthusiad ffurfiannol, cyn canolbwyntio ar y cyd-destun a'r cwestiynau ymchwil arweiniol ar gyfer yr astudiaeth hon
- Mae **Pennod 2** yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod yr astudiaeth, gan ddisgrifio'r dull o recriwtio cyfranogwyr, y dulliau casglu data, y dadansoddiad, a chyfyngiadau'r ymchwil
- Mae **Pennod 3** yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau ymchwil a goblygiadau allweddol
- Mae **Pennod 4** yn cyflwyno casgliadau a meysydd i'w hystyried ymhellach

## 1.1. Cefndir y diwygiadau i’r Cwricwlwm i Gymru

Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg ac i greu system addysg sy'n codi safonau addysgol yng Nghymru ac yn sicrhau hyder y cyhoedd. Mae gan y Cwricwlwm i Gymru bedwar diben sy’n fan cychwyn ac yn ddyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae’r adroddiad ‘Improving Schools in Wales’ (OECD, 2014) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) — yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu — yn nodi'r rhesymeg dros y diwygiadau, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer sut i ddylunio cwricwlwm newydd sy'n addas ar gyfer y Gymru fodern. O ganlyniad i’r diwygiadau, mae'n ofynnol i bob ysgol ddatblygu ei chwricwlwm ei hun o fewn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a ddiffiniwyd yn genedlaethol, gan alluogi dysgwyr i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae darpariaeth addysg gynnar o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygiad plant. Mae'r blynyddoedd cynnar yn darparu sylfaen ar gyfer dysgu a chynnydd yn y profiadau, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithgar a chyflogaeth yn y dyfodol.

Nod y Cwricwlwm i Gymru yw creu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith plant yng Nghymru a'u cefnogi i wireddu pedwar diben y cwricwlwm. Mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod dysgu sylfaen:

> “…yn rhan o Gwricwlwm i Gymru 3 i 16 a’i fwriad yw adlewyrchu anghenion dysgu a datblygu penodol plant hyd at 8 oed neu ddysgwyr sydd ag anghenion datblygiadol ychwanegol. Mae dysgu sylfaen yn canolbwyntio ar y dulliau addysgu a dysgu addysgegol sy’n sgaffald ar gyfer dysgu a datblygiad pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar, neu ddysgwyr a allai fod ag anghenion datblygiadol tebyg. Mae hyn yn adlewyrchu’r pwysigrwydd rydyn ni, fel Llywodraeth Cymru, a’n partneriaid yn ei roi ar y cyfnod unigryw hwn o addysgu a dysgu, gyda’i nod i gefnogi ymarferwyr mewn trafodaethau cyson i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn.” (Llywodraeth Cymru, 2022a)

### 1.1.1. Cynllunio a gwireddu cwricwlwm

Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, gofalwyr, asiantaethau partner a'r gymuned leol. Er mwyn cefnogi ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adran Galluogi Dysgu o ganllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2023) sy'n arbennig o berthnasol yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at Gam Cynnydd 1. Nodir rhagor o wybodaeth isod am y gofynion ar ysgolion i gynllunio a gwireddu cwricwlwm sy'n cefnogi dysgu sylfaen.

Canolbwyntiodd Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol (NNC) yn 2024 (Llywodraeth Cymru, 2024b) ar sut y gallai'r canllawiau Galluogi Dysgu gefnogi ymarferwyr i gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm sy'n briodol o ran datblygiad ac sy'n gynhwysol. Tynnodd fforwm yr NNC sylw at y ffaith nad yw datblygiad plant yn cael ei ddeall yn gyson ar draws y sector addysg ond bod ymarferwyr a oedd wedi defnyddio'r canllawiau wedi'u canfod yn ddefnyddiol wrth lunio eu gweledigaeth o’r cwricwlwm. Un o gasgliadau’r fforwm oedd y gallai deall sut i ymgorffori'r canllawiau Galluogi Dysgu gefnogi ymarferwyr wrth iddynt fynd ati i gynllunio, hunanwerthuso, myfyrio a symud ymlaen i’r cam nesaf.

Mae'r canllawiau'n amlygu’r ffaith, wrth gynllunio a dylunio cwricwlwm, bod gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymarferydd o ddatblygiad plentyn neu berson ifanc yn hanfodol. Mae'r adran Galluogi Dysgu o'r canllawiau statudol yn nodi y dylai dysgu ac addysgu ystyried, a lle y

bo'n briodol, gynnwys y meysydd sefydledig o ddatblygiad plant a fynegir fel y pum llwybr datblygiadol canlynol:

- perthyn
- cyfathrebu
- archwilio
- datblygiad corfforol
- lles

Mae addysgeg yn rhan bwysig o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion a lleoliadau ystyried a mabwysiadu dulliau addysgeg sy'n briodol i'w datblygiad ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan ddiwallu anghenion y dysgwyr a'u cefnogi i ddatblygu, ar eu cyflymder eu hunain, tuag at wireddu pedwar diben (Llywodraeth Cymru, 2022b) y cwricwlwm. Mae nodweddion allweddol addysgeg dysgu sylfaen lwyddiannus yn cynnwys chwarae a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae, bod y tu allan yn yr awyr agored, arsylwi a dysgu dilys a phwrpasol.

### 1.1.2. Asesiad

Fel rhan o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, cafodd y gofyniad cenedlaethol am asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol ei ddirwyn i ben fel rhan o gwricwlwm a ragnodir yn genedlaethol. Yn lle hynny, mae ysgolion bellach yn gyfrifol am ddatblygu trefniadau asesu sy'n cyd-fynd â'u cynllun cwricwlwm eu hunain ac sy'n adlewyrchu anghenion eu dysgwyr a'u cyd-destunau.

Mae canllawiau asesu (Llywodraeth Cymru, 2024c) a gyhoeddwyd fel rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn nodi y dylid defnyddio trefniadau asesu dechreuol i nodi mannau cychwyn dysgwyr a phenderfynu sut y gall yr ysgol neu'r lleoliad gefnogi cynnydd mewn dysgu orau.[troednodyn 1] Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi y dylai'r asesiadau dechreuol hyn asesu galluoedd a doniau dysgwyr i benderfynu sut i gefnogi cynnydd dysgwyr a'r dysgu a'r addysgu sydd eu hangen. O'r herwydd, mae pwyslais ar sicrhau bod ymarferwyr yn deall cefndir, profiadau ac anghenion pob dysgwr unigol. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai ymarferwyr ystyried gwybodaeth a ddarperir gan y rhai sydd wedi cefnogi addysg y dysgwr yn flaenorol. Mae rhannu gwybodaeth yn rhagweithiol i gefnogi cynnydd dysgwr o ran ei addysg yn rhan bwysig o'r broses hon.

Darperir dysgu sylfaen i blant tair a phedair oed mewn ysgolion neu leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar brofiadau ysgolion o ran cynllunio a gwireddu cwricwlwm ar gyfer eu dysgwyr ieuengaf ac nid yw lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir wedi'u cynnwys yn y sampl. O ystyried maint ac amrywiaeth y sector

Troednodyn:
[1] Defnyddir asesu 'dechreuol' yn yr adroddiad hwn, gan adlewyrchu'r geiriad a ddefnyddir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022. Defnyddir asesiad 'cychwynnol' mewn cyd-destunau eraill.

a ariennir nas cynhelir, penderfynwyd y byddai cynnwys nifer cyfyngedig o leoliadau ochr yn ochr ag ysgolion yn arwain at sampl o ysgolion a lleoliadau a oedd wedi'i wanhau'n ormodol. Yn ogystal â hynny, mae profiadau lleoliadau meithrin nas cynhelir wedi'u casglu fel rhan o waith arall a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Astudiaeth Ansoddol hon yn gyfle i gynnal gwaith ymchwil sy’n canolbwyntio ar addysgeg ac ymarfer dysgu sylfaen yn fanylach ac yn anelu at ddeall sut y mae’r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wireddu ar gyfer dysgwyr ieuengaf Cymru. Drwy archwilio sut y mae elfennau penodol o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gweithredu ar draws ysgolion cynradd (gyda darpariaeth feithrin a hebddi), nod yr astudiaeth yw deall a yw'r dulliau'n gyson â gweledigaeth a dyheadau diwygiadau’r Cwricwlwm i Gymru.

## 1.2. Trosolwg o'r Astudiaeth Ansoddol o Ddysgu Sylfaen

Nodau’r Astudiaeth Ansoddol o Ddysgu Sylfaen oedd archwilio sut mae ysgolion yn:

1. cynllunio ac yn gwireddu cwricwlwm sy'n briodol yn addysgegol ac yn ddatblygiadol ar gyfer dysgu sylfaen sy'n cefnogi dysgwyr mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru (Cwestiwn Ymchwil 1)
2. defnyddio canllawiau a gweithgaredd dysgu proffesiynol i sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir ganddynt yn briodol yn addysgegol ac yn ddatblygiadol ar gyfer dysgu sylfaen - yn unol â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru (Cwestiwn Ymchwil 2)

Cafodd y cwestiynau ymchwil cyffredinol uchod a'r pynciau a gynhwysir yn y canllaw pynciau ar gyfer yr Astudiaeth Ansoddol hon eu llywio gan drafodaethau rhwng y tîm ymchwil a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cynllunio'r astudiaeth. Roedd y pynciau a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer strwythuro sgyrsiau ymchwil gyda chynrychiolwyr fel a ganlyn:

- cynllunio a dylunio cwricwlwm i gefnogi dysgu sylfaen (Cwestiwn Ymchwil 1)
- addysgeg (Cwestiwn Ymchwil 1)
- asesu (asesiad dechreuol ac asesiad parhaus) (Cwestiwn Ymchwil 1)
- cydweithredu (Cwestiwn Ymchwil 1)
- canllawiau a ffynonellau cymorth sy'n ymwneud â dysgu sylfaen (Cwestiwn Ymchwil 2)
- dysgu proffesiynol (Cwestiwn Ymchwil 2)

Gellir y gweld canllaw pynciau yn Atodiad A.

# 2. Methodoleg

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau recriwtio, y gwaith maes a gynhaliwyd, y dull dadansoddol a chyfyngiadau'r ymchwil.

Mabwysiadwyd dull ymchwil ansoddol ar gyfer yr astudiaeth hon. Un o brif fanteision ymchwil ansoddol yw ei fod yn caniatáu i ymchwilwyr gael dealltwriaeth fanwl o safbwyntiau a phrofiadau’ cyfranogwyr yn y cyd-destunau penodol yr oeddent yn gweithio ynddynt.

## 2.1 Recriwtio a sampl

Cafodd y cyfle i gymryd rhan yn y gwerthusiad ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys drwy gylchlythyr Dysg, cylchlythyr tîm Dysgu Sylfaen a Hwb, a gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth ansoddol. Roedd y ffurflen mynegi diddordeb yn cynnwys nifer bach o gwestiynau proffil i helpu i sicrhau bod ystod eang o ysgolion wedi'u cynnwys yn y sampl, gan gynnwys cwestiwn ar ddealltwriaeth o'r gofynion i gynllunio cwricwlwm yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru (gydag opsiynau’n amrywio o anghytuno'n gryf i gytuno'n gryf) a chwestiwn ar eu cynnydd hyd yma o ran gwireddu’r Cwricwlwm i Gymru. Mynegodd cyfanswm o 28 o ysgolion ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth ansoddol.

Yn ogystal â hynny, gwahoddwyd rhai ysgolion a oedd wedi cwblhau'r arolwg Uwch Arweinwyr ac Ymarferwyr yn 2024 ac a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthuso yn y dyfodol i gymryd rhan yn yr astudiaeth ansoddol. Gwahoddwyd yr ysgolion hyn i helpu i sicrhau trawstoriad o ysgolion yn ôl daearyddiaeth a chyfrwng iaith.

Recriwtiwyd cyfanswm o 19 o ysgolion i gymryd rhan yn yr astudiaeth a oedd yn cynrychioli trawstoriad da yn ôl rhanbarth (y Gogledd, y Canolbarth a’r Gorllewin, y Canolbarth, y De a’r De-ddwyrain), yn ôl math o ysgol (ysgolion gyda a heb ddarpariaeth feithrin, ysgol arbennig) ac yn ôl cyfrwng iaith. Roedd y 19 ysgol a gymerodd ran yn cynnwys:

- pedair ysgol cyfrwng Cymraeg; roedd gweddill yr ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg
- ysgolion wedi'u lleoli ar draws y pedwar rhanbarth ac mewn 13 awdurdod lleol gan gynnwys cymysgedd o leoliadau gwledig a threfol

- cymysgedd o ysgolion gyda a heb ddarpariaeth feithrin ac un ysgol arbennig
- roedd canran y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn yr ysgolion yn y sampl yn amrywio o lai na 5% i dros 15% [troednodyn 2]
- cymysgedd o ysgolion yn ôl maint, yn seiliedig ar nifer y dysgwyr, er enghraifft roedd gan yr ysgol gynradd fwyaf dros 500 o ddysgwyr ac roedd gan y lleiaf lai na 90 o ddysgwyr

Cyflwynir crynodeb o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r astudiaeth yn Atodiad B, a cheir manylion pellach yno.

## 2.2 Dulliau ymchwil

Cynhaliwyd trafodaethau manwl gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn 14 o blith 19 o ysgolion ar ddau bwynt. Trefnwyd trafodaethau cychwynnol gydag uwch arweinwyr a oedd wedi mynegi diddordeb, ar ran eu hysgolion, mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth. Yna dewisodd uwch arweinwyr ymarferwyr o'u hysgolion i fod yn rhan o'r trafodaethau dilynol. Cymerodd cynrychiolwyr o'r pum ysgol sy'n weddill yn y sampl ran mewn grwpiau ffocws ar-lein. Mabwysiadodd y trafodaethau manwl a'r grwpiau ffocws ddull lled-strwythuredig i ganiatáu trafodaeth strwythuredig yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan ganiatáu hyblygrwydd i drafod materion a godwyd gan y cyfranogwyr. Darparwyd themâu i gyfranogwyr cyn y trafodaethau a'r grwpiau ffocws.

Cynhaliwyd y trafodaethau manwl cychwynnol gyda'r 14 ysgol a'r grwpiau ffocws ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams. Cynhaliwyd y trafodaethau manwl dilynol yn bersonol ar safleoedd yr ysgol yn bennaf. Parhaodd y trafodaethau manwl rhwng 30 a 90 munud yn dibynnu ar y cyfranogwr a pharhaodd y grwpiau ffocws am 60 munud. Recordiwyd y trafodaethau a'r grwpiau ffocws gyda chydsyniad y cyfranogwyr.

Cymerodd cyfanswm o 47 o gyfranogwyr ran mewn trafodaeth fanwl neu grŵp ffocws. Roedd y cyfranogwyr yn adlewyrchu ystod o rolau a oedd yn berthnasol i ddysgu sylfaen (er enghraifft, Dirprwy Bennaeth, Arweinydd Dysgu Sylfaen, athrawon Meithrin a Derbyn) a hyd gyrfa (gyrfa gynnar, canol gyrfa, profiadol). Roedd gan rai cyfranogwyr rolau arweinyddiaeth uwch a rolau ymarferydd yn eu hysgol.

Cafodd dyluniad y canllaw pwnc a ddefnyddiwyd ar gyfer trafodaethau manwl a grwpiau ffocws (gweler Atodiad A), a'r dulliau a ddefnyddiwyd, eu llywio gan adolygiad ymchwil desg ac arbenigedd proffesiynol y tîm ymchwil. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth o'r cyd-destun polisi sy'n ymwneud â dysgu sylfaen. Datblygwyd y canllaw pwnc i fod yn gyson â'r dull cyffredinol

---

Troednodyn:
[2] Mae data ADY/AAA yn dod o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) 2024/25 (Llywodraeth Cymru, 2026). Ni chyhoeddwyd data ar gyfer ysgolion lle roedd rhwng un a phedwar dysgwr mewn rhai categorïau o ADY/AAA. Ar gyfer yr ysgolion hyn, neilltuwyd gwerth tybiedig o ddau ddysgwr er mwyn galluogi cyfanswm a chanran y dysgwyr ag ADY/AAA i gael eu deillio. Roedd gweithredu graddol y system ADY yn mynd rhagddo ar yr adeg y cynhyrchwyd yr adroddiad hwn, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data PLASC a ddefnyddiwyd.

a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad, drwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru, ac mae'n adlewyrchu'r amser a'r adnoddau a oedd ar gael ar gyfer y cam hwn o'r ymchwil.

Cynhaliwyd y trafodaethau a'r grwpiau ffocws mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu fframwaith y Theori Gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys gofyn cwestiynau yn ymwneud â:

- beth mae ysgolion yn ei wneud
- pam maen nhw'n cymryd y camau hyn (h.y., y ffactorau neu'r amodau sy'n eu gyrru)
- pa ganlyniadau sy'n dod i'r amlwg neu a welir.

Yna gofynnwyd cwestiynau atodol i archwilio’r manylion (gweler y canllaw pynciau yn Atodiad A). Roedd y dull hwn yn caniatáu i sgyrsiau ddatblygu'n naturiol, gan alluogi ymchwilwyr i arwain y drafodaeth drwy awgrymiadau penodol yn ymwneud â'r cwestiynau ymchwil. Defnyddiwyd y trafodaethau i fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil cyffredinol, gyda'r Theori Gweithredu yn cael ei ddefnyddio i ddarparu awgrymiadau a chwestiynau dilynol ar gyfer casglu manylion ychwanegol.

## 2.3 Dadansoddiad

Ar ddechrau'r cam dadansoddi, cyfarfu tîm yr astudiaeth i gadarnhau camau'r broses ac i sicrhau cysondeb yn y dull a'r dehongliad o themâu a ddaeth i'r amlwg o'r astudio.

Cynhyrchwyd a dadansoddwyd trawsgrifiadau o sgyrsiau a recordiwyd, ochr yn ochr â nodiadau o’r gwaith maes. Roedd y trawsgrifiadau yn ddienw a chafodd eu cywirdeb ei wirio. Ailddarllenodd yr ymchwilwyr y trawsgrifiadau sawl gwaith i gael dealltwriaeth ddofn o'r cynnwys ac i nodi patrymau cychwynnol neu syniadau a oedd yn codi dro ar ôl tro.

Mabwysiadwyd dadansoddiad thematig, yn seiliedig ar ac wedi’i addasu o ddull Braun a Clarke (2022), a oedd yn cynnwys proses ailadroddus o godio a dadansoddi, yn cynnwys:

- ymgyfarwyddo â'r data - darllen pob un o drawsgrifiadau'r trafodaethau i ddeall y cynnwys a'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y trafodaethau
- cynhyrchu codau cychwynnol – drwy broses ddiddwythol, cynhyrchwyd codau cychwynnol yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil a'r pynciau a nodir yn y canllawiau trafod
- cynhyrchu themâu - gan ddefnyddio’r codau a nodwyd, chwiliodd y tîm ymchwil am gysylltiadau rhwng y codau hyn a'u grwpio yn themâu
- nodi themâu cyffredin - darganfod y themâu mwyaf cyffredin ar draws y data i ddarparu strwythur ar gyfer yr adroddiad
- cynhyrchu'r adroddiad - cyflwyno'r themâu mewn naratif cydlynol a oedd yn mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil.

Roedd y canllaw pynciau a ddangosir yn Atodiad B yn seiliedig ar bum maes allweddol:

- dylunio a chynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen
- addysgeg
- asesu a chynnydd
- cydweithrediad
- cymorth a chanllawiau
- dysgu proffesiynol

Archwiliodd y tîm astudio'r meysydd hyn yn erbyn y cwestiynau ymchwil a chyfeiriwyd at fframwaith Theori Gweithredu i ystyried y perthnasoedd rhwng camau gweithredu, yr amodau a'r canlyniadau.

### 2.4 Cyfyngiadau

Archwiliodd yr ymchwil ansoddol hon sut yr oedd ysgolion yn cynllunio ac yn gwireddu cwricwlwm addysgegol a datblygiadol ar gyfer dysgu sylfaen sy'n cefnogi dysgwyr mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Darparodd yr astudiaeth ystod o wybodaeth werthfawr ond cyflwynodd gyfyngiadau hefyd.

Er bod cyfansoddiad y sampl yn amrywiol ac yn darparu safbwyntiau amrywiol, roedd yn fach ac yn sampl hunan-ddethol; felly, nid oes modd cyffredinoli’r canfyddiadau. Gan fod ysgolion wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yn yr astudiaeth, mae'n bosibl bod yr ysgolion mwy 'hyderus', y rhai sydd â'r gallu a'r diddordeb mewn ymchwil neu'r rhai a oedd yn dymuno lleisio eu rhwystredigaethau ynghylch y Cwricwlwm i Gymru, wedi'u cynnwys yn y sampl. Fodd bynnag, ceisiodd y tîm astudio liniaru hyn drwy gynnwys cwestiynau yn y ffurflen mynegi diddordeb ynghylch dealltwriaeth ysgolion o'r gofynion ar gyfer dylunio'r cwricwlwm yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru a'u cynnydd hyd yma wrth ei weithredu. Caniataodd hyn i'r tîm astudio ddewis ysgolion nad oeddent yn hunan-adrodd mor hyderus o ran eu dealltwriaeth o'r gofynion ac a oedd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wireddu eu cwricwlwm.

Roedd nifer o gyfranogwyr yn yr astudiaeth hon yn dal rolau uwch arweinwyr a rolau ymarferydd yn eu hysgolion ac yn eu hatebion, ni wnaethant nodi a oeddent yn ateb o safbwynt uwch arweinydd ynteu ymarferydd.

Mae'r ymchwil yn rhoi cipolwg ar arferion ar adeg pan fo gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion yn parhau i fod yn broses ailadroddus ac esblygol. Cyfyngodd y cipolwg dros dro hwn ar y gallu i archwilio 'taith' y Cwricwlwm i Gymru a'r cynnydd a wnaed gan ysgolion dros amser. Er i ddata gael ei gasglu ar ddau bwynt ar gyfer 14 o'r ysgolion yn y sampl, cynhaliwyd trafodaethau o fewn un tymor ysgol, gan ei gwneud hi'n amhosibl archwilio newidiadau dros gyfnod hwy.

Oherwydd y cyfyngiadau ar yr amser a oedd ar gael ar gyfer trafodaethau manwl a bod ysgolion yn brysur ac nad oedd staff bob amser ar gael, fe wnaeth y trafodaethau gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion barhau am rhwng 60 a 90 munud. O ganlyniad i

hyn ac oherwydd natur lled-strwythuredig y trafodaethau, roedd yn anodd sicrhau bod y pynciau yn y canllaw pynciau yn cael eu trafod yn llawn (gweler Atodiad A).

Ni recriwtiwyd ymarferwyr unigol yn uniongyrchol i'r astudiaeth ac mae'n bosibl bod uwch arweinwyr wedi dewis staff a oedd yn debygol o roi darlun cadarnhaol o’r ysgol, neu a allai rannu naratif penodol am eu hysgol.

Ni chymerodd dysgwyr a rhieni/gofalwyr ran yn yr astudiaeth ansoddol hon. Barn yr uwch arweinwyr ac ymarferwyr yw'r safbwyntiau a fynegir yn y canfyddiadau am brofiadau dysgwyr a rhieni/gofalwyr o’r Cwricwlwm i Gymru. Bydd safbwyntiau dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn cael eu harchwilio drwy ymchwil ansoddol bellach fel rhan o ymchwil arall sydd wedi’i gynllunio yn ystod y gwerthusiad ffurfiannol o’r Cwricwlwm i Gymru.

### 2.5 Nodyn ar gyflwyno’r canfyddiadau

Mae'r canfyddiadau a adroddwyd yn yr astudiaeth hon yn adlewyrchu'r iaith a'r arferion a ddisgrifiwyd gan uwch arweinwyr ac ymarferwyr yn ystod trafodaethau a grwpiau ffocws. Efallai na fydd y derminoleg a ddefnyddir a'r disgrifiadau o arferion bob amser yn cyd-fynd ag iaith neu ofynion fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Lle mae hyn yn digwydd, nid yw'r awduron wedi gwneud sylwadau ar ddilysrwydd yr arferion a ddisgrifiwyd. Mewn rhai achosion, mae troednodiadau wedi'u cynnwys i gyfeirio'r darllenydd at ganllawiau neu wybodaeth berthnasol, gan ddarparu manylion cyd-destunol sy'n ymwneud â phwyntiau penodol a godwyd yn y bennod canfyddiadau.

# 3. Canfyddiadau

Mae'r bennod hon yn cyflwyno canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg drwy'r gwaith maes a gynhaliwyd gydag ymarferwyr ysgol. Mae wedi'i threfnu fel a ganlyn:

- 3.1 - Dylunio a chynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen
- 3.2 - Addysgeg
- 3.3 - Asesu a chynnydd
- 3.4 - Cymorth a chanllawiau
- 3.5 - Dysgu proffesiynol

## 3.1 Dylunio a chynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen

### 3.1 Crynodeb

Dywedodd pob ysgol fod cynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen wedi'i nodweddu gan bwyslais ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, wedi'i gyd-destunoli ac sy’n briodol i'w datblygiad. Yn aml, roedd ysgolion yn seilio eu gwaith cynllunio ar y cyd-destun lleol, gan dynnu ar brofiadau cymunedol i gefnogi ymgysylltiad a pherthnasedd. Tynnodd llawer o ymarferwyr sylw at werth defnyddio amgylcheddau lleol a phrofiadau byd go iawn i gryfhau dealltwriaeth a lles dysgwyr. Roedd dysgu sy’n seiliedig ar chwarae a dysgu dilys yn nodweddion canolog o'r ddarpariaeth, gydag ysgolion yn mabwysiadu dulliau hyblyg, wedi'u harwain gan arsylwadau, a oedd yn caniatáu i ymarferwyr ymateb i chwilfrydedd a diddordebau plant. Helpodd adolygiad rheolaidd o'r ddarpariaeth yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored i sicrhau bod amgylcheddau'n hyrwyddo chwilfrydedd, annibyniaeth a chynnydd.

Dywedodd ysgolion eu bod yn defnyddio cymysgedd o ddulliau i gefnogi llythrennedd a rhifedd er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu sgiliau sylfaenol. Yn benodol, ystyriwyd bod defnyddio dulliau amrywiol ar gyfer y dysgwyr ieuengaf mewn addysg gynnar yn hanfodol wrth gefnogi datblygiad holistaidd dysgwyr, yn enwedig o ganlyniad i’r cynnydd canfyddedig mewn oedi o ran datblygiad ac anghenion cyfathrebu ychwanegol. Nododd ymarferwyr fod y cwricwlwm yn parhau i esblygu o'r Cyfnod Sylfaen blaenorol, gyda llawer hefyd yn tynnu'n uniongyrchol ar y cwricwlwm nas cynhelir i arwain dulliau mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn. Soniodd ysgolion am niferoedd cynyddol o ddysgwyr ag ADY ac anghenion mwy cymhleth, gan olygu bod angen addasu'r ddarpariaeth ymhellach, gan gynnwys defnyddio ymyriadau wedi'u targedu, gosod disgwyliadau sy'n briodol i gamau datblygiadol dysgwyr, a mwy o gefnogaeth gan oedolion lle bo modd. Fodd bynnag, nodwyd cyfyngiadau staffio a chyfyngiadau cyllidebol fel rhwystrau parhaus i ysgolion gynnig darpariaeth lawn sy'n ymatebol yn ddatblygiadol ac yn gynhwysol i bob dysgwr.

### 3.1.1. Pwyslais ar gynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr

Dywedodd ysgolion yn gyson eu bod yn rhoi pwyslais clir ar gynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr mewn dysgu sylfaen; disgrifiwyd dulliau fel rhai sy'n ymatebol i bwyntiau cychwyn ac anghenion datblygiadol dysgwyr. Nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr fod y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn cael ei lywio gan asesiad dechreuol, arsylwi parhaus, asesiad ffurfiannol a barn broffesiynol, a helpodd i bennu'r dulliau a fabwysiadwyd. Disgrifiodd llawer eu bod yn rhoi'r gorau i gynllunio sy'n seiliedig ar dasgau ac sy'n canolbwyntio ar gynnwys ac yn troi at gylchoedd cynllunio mwy hyblyg—yn aml bob tymor—a oedd yn canolbwyntio ar ddiddordebau dysgwyr ac yn adlewyrchu anghenion sy'n dod i'r amlwg. Tynnodd yr ymarferwyr hyn sylw at y ffaith eu bod yn fwriadol hyblyg o ran eu cynllunio, gyda dysgu wedi'i drefnu o amgylch meysydd lle mae dysgwyr yn dangos chwilfrydedd, yn hytrach na phynciau wedi'u pennu ymlaen llaw.

> "…rydym yn llawer mwy hyblyg gyda'n pynciau yng Ngham Cynnydd 1…rydym yn mabwysiadu dull lle rydym yn dilyn diddordebau'r plant." (Uwch Arweinydd)

Mewn achosion eraill, dywedodd ysgolion eu bod wedi defnyddio arsylwadau parhaus i lywio gwaith cynllunio wedi'i dargedu i gefnogi cynnydd dysgwyr:

> "Wrth i ni arsylwi, os byddwn yn sylwi nad ydyn nhw'n gallu didoli, [byddwn ni'n dweud] iawn, mae angen i ni drefnu gwelliannau neu gyfleoedd chwarae dan arweiniad sy'n ymwneud â didoli er mwyn cefnogi datblygiad y plentyn hwnnw." (Ymarferydd)

Cyfeiriodd llawer o ysgolion hefyd at ymrwymiad i gynnwys dysgwyr yn y gwaith o gynllunio cwricwlwm drwy gasglu gwybodaeth yn rheolaidd am ddiddordebau dysgwyr a'i hymgorffori yn y cynllunio. Mewn llawer o achosion, nododd ysgolion hefyd eu bod yn arsylwi chwarae digymell dysgwyr ac yn defnyddio hyn ar gyfer cynllunio 'ar y pryd' a chynllunio tymor canolig. Cyfeiriodd sawl ymarferydd at bwysigrwydd defnyddio profiadau neu senarios sy'n cael eu ysgogi gan blant fel cyd-destunau dysgu dilys.

> "Rydyn ni'n treulio amser yn eu gwylio nhw… [rydyn ni] yn gweld sut maen nhw'n ymdopi, sut maen nhw'n chwarae… ac yna rydyn ni hefyd yn gwneud 'cynllunio ar y pryd'. Felly, os ydyn ni'n arsylwi rhywun sy'n dechrau chwarae gêm hufen iâ… rydyn ni'n cymryd y foment honno i ddysgu'r sgiliau sydd ei angen arno yn yr hyn sydd o ddiddordeb iddo ar yr union foment honno." (Ymarferydd)

Esboniodd rhai fod dysgu sylfaen yn adlewyrchu parhad o ddulliau a ddefnyddiwyd yn flaenorol o fewn y Cyfnod Sylfaen (gweler 3.1.6 isod). Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedodd ychydig o ysgolion fod gweithredu'r trefniadau cwricwlwm newydd wedi gofyn am newidiadau sylweddol i'r ffordd y maent yn cynllunio ac yn cyflwyno dysgu i'w dysgwyr ieuengaf.

> "Fe wnaethom ni ailwampio'n llwyr, newid yn llwyr sut rydym yn cynllunio yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn a Cham Cynnydd 1. Yn y dosbarth meithrin dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn defnyddio'r cwricwlwm nas cynhelir sydd wedi newid yn llwyr sut rydym yn gweithio…nawr mae'n cael ei arwain

yn fwy gan y plentyn. Rydym wedi symud i ffwrdd o’r dull yng ngweddill yr ysgol sy’n canolbwyntio ar brosiectau ymholi [hirach] i ganolbwyntio ar brosiectau ymholi bach, felly’r tymor hwn rydym wedi bod yn gwneud tân gwyllt/Diwali ac yn meithrin diddordebau’r dysgwyr eu hunain. Dim ond ers y newid [i’r Cwricwlwm i Gymru] y mae pethau fel hyn wedi digwydd.” (Ymarferydd)

Disgrifiodd y rhan fwyaf o ysgolion gynllunio cwricwlwm deinamig ac esblygol ar gyfer dysgu sylfaen, wedi'i lywio gan newid mewn carfannau neu grwpiau blwyddyn. Roedd y ffactorau a adroddwyd a oedd yn dylanwadu ar gynllunio yn cynnwys anfantais gymdeithasol-economaidd, ADY, ac oedi mewn datblygiad, y priodolwyd llawer ohonynt i effeithiau parhaus y pandemig COVID-19. Pwysleisiodd ysgolion yr angen i flaenoriaethu lles, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu dysgwyr, gan egluro eu bod wedi addasu eu disgwyliadau a'u cynlluniau i adlewyrchu mannau cychwyn a pharodrwydd dysgwyr ar gyfer dysgu.

Datgelodd tystiolaeth fod llawer o ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd priodoldeb datblygiadol wrth weithredu'r cwricwlwm. Cyfeiriodd rhai ysgolion at eu defnydd o'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, a werthfawrogwyd am ei eglurder a'i ddefnyddioldeb wrth helpu staff i gynllunio yn seiliedig ar ddatblygiad a chynnydd gwirioneddol plant, yn hytrach nag ar ddisgwyliadau yn seiliedig ar oedran.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfle i fabwysiadu cynllunio sy'n ymatebol i'r dysgwr ac ymgorffori dulliau addysgeg wedi’u harwain gan y dysgwr fel rhan o wireddu eu cwricwlwm. Fodd bynnag, cyfeiriodd llawer hefyd at yr heriau sy'n gysylltiedig â'r dulliau hyn, gan gynnwys sicrhau bod digon o gapasiti staffio i gefnogi dysgwyr ag ADY a'r rhai ag anghenion mwy cymhleth. Roedd rhywfaint o dystiolaeth hefyd o densiwn rhwng cynllunio sy'n ymatebol i'r dysgwr a dulliau sy’n cael eu harwain gan y dysgwr mewn dysgu sylfaen a'r hyn a ddisgrifiwyd fel dysgu 'mwy ffurfiol' wrth i ddysgwyr symud i Flwyddyn 3 (gweler adran 3.1.5 isod).

### 3.1.2. Ymgorffori cyd-destun lleol yn y broses o gynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen

Dywedodd llawer o ysgolion fod cynllunio cwricwlwm yn aml yn cael ei lywio gan eu cyd-destun lleol, gyda phrofiadau dysgu a phrosiectau seiliedig ar ymholiadau yn gysylltiedig â'r gymuned, daearyddiaeth leol, yr amgylchedd a hanes. Disgrifiodd ysgolion eu bod yn cynllunio cwricwla sy'n adlewyrchu profiadau a chyd-destunau sy'n ystyrlon i blant a'u cymunedau, gan geisio sicrhau bod dysgu yn cefnogi cynnydd o fewn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Ystyriwyd y dull cyd-destunol hwn gan ymarferwyr fel un sy'n arbennig o effeithiol mewn dysgu sylfaen, lle yr ystyriwyd bod profiadau dilys, seiliedig ar le, yn helpu plant i wneud synnwyr o'u byd a chefnogi ymgysylltiad dyfnach.

Pwysleisiodd ysgolion fod cynllunio dysgu o amgylch profiadau bywyd plant yn caniatáu i ddysgu fod yn fwy ystyrlon a diddorol. Esboniodd un athro fod eu cwricwlwm wedi'i lunio'n fwriadol o amgylch y gymuned leol a'r cysyniad o gynefin, gan nodi mai "ein cwricwlwm ni yw'r cwricwlwm i raddau helaeth ... mae'n ymwneud â phrofiadau'r plant yn eu hardal leol". Nododd ymarferwyr fod y dull hwn yn cefnogi ymdeimlad o hunaniaeth, perthyn a

pherthnasedd, gan sicrhau bod dysgwyr yn gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli yn yr hyn y maent yn ei ddysgu bob dydd.

Hefyd, dywedodd rhai ysgolion fod cynllunio dysgu o amgylch y cyd-destun lleol ac ymgorffori cymuned a chynefin mewn cynllunio cwricwlwm yn cefnogi datblygiad a dealltwriaeth dysgwyr mewn sawl ffordd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cefnogi datblygiad cymdeithasol drwy brofiadau cymunedol a rennir; helpu dysgwyr i deimlo balchder yn eu cymuned; ymarfer hunanreoleiddio a darparu cyfleoedd i blant lywio sefyllfaoedd cymdeithasol newydd; a chynnig cyfleoedd na fydd plant fel arall yn eu profi gartref. Nododd athrawon fod gan lawer o blant gyfleoedd cyfyngedig i archwilio y tu hwnt i'w hamgylchoedd uniongyrchol, gan wneud yr ardal leol yn ysgogiad cyfoethog ar gyfer ymholi. Drwy ddefnydd rheolaidd o ysgol goedwig, teithiau cerdded cymunedol, a chwarae rôl bywyd go iawn sy'n gysylltiedig â busnesau lleol, dywedodd ymarferwyr y gallai plant ddatblygu hyder, sgiliau corfforol, a dealltwriaeth o'r byd go iawn.

Felly, mae ymgorffori cyd-destun lleol mewn cynllunio nid yn unig yn cryfhau ymgysylltiad ond hefyd yn sail i ddull datblygiadol o ddysgu, gan gefnogi ymdeimlad o berthyn, hunaniaeth, cyfathrebu, archwilio a lles. Disgrifiodd ysgolion yr ymatebolrwydd hwn yn gyson fel rhywbeth hanfodol ar gyfer dysgu cynnar o ansawdd uchel.

### 3.1.3. Cynllunio dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a dysgu dilys

Roedd llawer o ysgolion yn pwysleisio dulliau o gynllunio dysgu sy'n seiliedig ar chwarae, gan sicrhau bod digon o amser ar gael ar gyfer chwarae agored. Disgrifiodd ymarferwyr eu bod wedi mabwysiadu dull hyblyg o gynllunio dysgu a phrofiadau, gan fod yn barod i 'ddilyn diddordebau plant' a defnyddio 'cynllunio ar y pryd', yn enwedig mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn. Esboniodd rhai ymarferwyr eu bod yn cynllunio ar gyfer chwarae dan arweiniad a chwarae'n annibynnol, gydag ardaloedd dan do ac awyr agored dynodedig yn darparu mannau ar gyfer chwarae rôl, chwarae blociau, archwilio'n rhydd, ceginau mwd, ac ardaloedd ar gyfer beiciau a threiciau.

> "Mae gan ystafelloedd dosbarth ardaloedd dynodedig – chwarae rôl, chwarae blociau, awyr agored, ysgrifennu creadigol, darllen, dŵr, tywod, ceginau mwd." (Ymarferydd)

Cyfeiriodd rhai ysgolion hefyd at gynllunio'n fwriadol amgylcheddau sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu, gydag ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu mewn ffyrdd sy'n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud marciau a darllen.

Datgelodd trafodaethau fod gwaith cynllunio wedi'i lywio gan adolygiadau a gwerthusiadau rheolaidd o ymgysylltiad dysgwyr a'u dewisiadau o ran sut a ble i chwarae. Nododd athrawon a chynorthwywyr addysgu (CA) mewn rhai ysgolion eu bod yn cyfarfod bob wythnos i drafod pa ardaloedd oedd yn cael eu defnyddio ac addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny; er enghraifft arsylwi pan "nad oes neb wedi defnyddio'r ardal dywod… beth sydd angen i ni ei wneud i wneud hynny'n fwy diddorol?" (Ymarferydd).

Nododd rhai ymarferwyr hefyd fod cynllunio seiliedig ar chwarae wedi'i lywio gan y llwybrau datblygiadol, gyda staff yn dylunio 'tasgau agored' sy'n cwmpasu sgiliau datblygu lluosog yn naturiol yn hytrach nag amcanion ynysig. Adroddwyd hefyd fod dysgu yn yr awyr agored yn cael ei gynllunio'n bwrpasol, gan gynnwys darpariaeth sy'n annog 'chwarae ymchwiliol', llythrennedd corfforol, a chyfleoedd na ellir eu cwblhau dan do.

Tynnodd rhai ymarferwyr sylw at bwysigrwydd yr amgylchedd dysgu wrth alluogi llif rhydd a chwarae di-dor rhwng mannau dan do a mannau awyr agored. Cyfeiriodd ymarferwyr eraill at drefnu ystafelloedd dosbarth mewn ffyrdd a oedd yn cynnwys 'gwahoddiadau i chwarae' neu'n ysgogi dysgwyr i chwarae; disgrifiwyd y rhain fel rhai a gynlluniwyd yn fwriadol i annog archwilio neu ddysgu hunangyfeiriedig, yn aml yn gysylltiedig â Meysydd dysgu a phrofiad neu ddiddordebau yr oedd athrawon wedi'u gweld o'r blaen ymhlith dysgwyr.

Mae tystiolaeth yn datgelu bod dysgu dilys a phwrpasol yn ganolog i ddylunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen. Dywedodd ysgolion eu bod yn aml yn cynllunio mewn ffyrdd sy'n ceisio cysylltu dysgu â phrofiadau bywyd go iawn, gan bwysleisio perthnasedd i'r ardal leol a'r gymuned fel rhan o ymdrechion i hyrwyddo'r syniad o 'gynefin'. Roedd enghreifftiau a ddarparwyd gan ysgolion yn cynnwys ymweliadau gan bobl o'r gymuned (er enghraifft, y gwasanaeth tân), ymgorffori hanes lleol yn eu dysgu, a defnyddio deunyddiau bob dydd a gwrthrychau go iawn yn lle/yn ogystal â theganau i wella cysylltiadau â'r byd go iawn.

Adroddwyd bod dysgu yn yr awyr agored, fel sesiynau ysgol goedwig, yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi lles corfforol a meddyliol, yn ogystal seilio dysgu ar brofiadau dilys, go iawn. Dywedodd ymarferwyr y gall profiadau corfforol yn yr awyr agored a chwarae archwiliadol fod o gymorth i hyder dysgwyr i brofi syniadau, datrys problemau a meithrin gwydnwch. Nododd llawer o ymarferwyr, drwy eu gwaith cynllunio cwricwlwm, eu bod yn ceisio sicrhau bod y dysgu yn ystyrlon ac yn berthnasol i ddysgwyr. Nododd nifer o ymarferwyr fod ffocws ar brofiadau dysgu dilys yn cefnogi mwy o annibyniaeth dysgwyr, ymgysylltiad dyfnach a datblygu sgiliau mwy ystyrlon.

### 3.1.4. Defnyddio cymysgedd o ddulliau i adlewyrchu addysgeg y blynyddoedd cynnar wrth gefnogi sgiliau trawsgwricwlaidd

Datgelodd tystiolaeth o nifer o ysgolion fod y gwaith o gynllunio cwricwlwm yn cynnwys ceisio cyfuno dysgu sy'n seiliedig ar chwarae ag addysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi llythrennedd a rhifedd. Er bod chwarae'n parhau i fod yn elfen ganolog o addysgeg y blynyddoedd cynnar ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi, dywedodd ymarferwyr hefyd eu bod yn blaenoriaethu sgiliau trawsgwricwlaidd. Roedd nifer o gyfeiriadau at ddatblygu gwybodaeth ffoneg dysgwyr a sgiliau darllen a mathemategol eraill, gan geisio sicrhau bod y rhain yn cael eu haddysgu mewn ffyrdd 'strwythuredig', yn aml gyda sesiynau dyddiol pwrpasol wedi'u hamserlennu.

Dywedodd sawl ymarferydd fod y gwaith cynllunio cwricwlwm wedi’i ddylanwadu gan ganfyddiad bod angen addysgu mwy penodol ar ddysgwyr er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, yn enwedig ym Mlynyddoedd 1 a 2. Ni ddisgrifiodd yr ymarferwyr hyn fel symud i ffwrdd o egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ond yn hytrach fel addasiad a

gynlluniwyd i gryfhau cynnydd sy’n adlewyrchu anghenion datblygiadol y garfan o ddysgwyr presennol.

Mae cysylltiad agos rhwng y newid hwn a chanfyddiad a fynegwyd gan ymarferwyr mewn tua hanner yr ysgolion bod angen cymorth wedi'i dargedu ar niferoedd cynyddol o ddysgwyr ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 i ddatblygu sylfeini llythrennedd a rhifedd cryfach. Tynnodd ymarferwyr eraill sylw at bryderon bod sgiliau motor manwl, sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhif dysgwyr yn datblygu'n arafach.

O ganlyniad, dywedodd sawl ysgol eu bod wedi ailgyflwyno neu gynyddu sesiynau addysgu byr a phenodol (gan ganolbwyntio fel arfer ar ffoneg, darllen dan arweiniad a mathemateg), gan sicrhau hefyd bod plant yn parhau i gael mynediad at ddysgu sy'n briodol i'w datblygiad drwy gydol y dydd. Disgrifiodd ysgolion ymdrechion i sicrhau bod addysgu llythrennedd a rhifedd wedi'i gysylltu'n ystyrlon â'r profiadau sydd ar gael drwy addysg sy’n seiliedig ar chwarae, gan alluogi disgyblion i ailadrodd a chymhwyso dysgu newydd mewn cyd-destunau dilys.

> “Yr wythnos hon rydym wedi bod yn gweithio ar adio rhifau yn ein dosbarth… felly byddaf yn sefydlu ardaloedd sy'n hyrwyddo gwaith adio rhifau ac mae'r cynorthwywyr addysgu yn edrych ar sut mae'r plant yn gwneud, gan asesu dealltwriaeth y plant drwy waith annibynnol.” (Ymarferydd)

Pwysleisiodd ymarferwyr fod defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol yn caniatáu iddynt gynnal priodoldeb datblygiadol dysgu yn y blynyddoedd cynnar gan gryfhau cynnydd dysgwyr mewn sgiliau trawsgwricwlaidd. Disgrifiwyd y cyfuniad hwn o ddulliau fel un sy’n cefnogi pob dysgwr i ddatblygu sylfeini cynnar cadarn mewn llythrennedd a rhifedd mewn ffyrdd sy’n ymateb i’w hanghenion datblygiadol.

> “Mae boreau strwythuredig yn meithrin trefn, hyder ac iaith academaidd… tra bo dysgu annibynnol, sy’n seiliedig ar chwarae, yn cael ei gynnal yn y prynhawn.” (Ymarferydd)

> “Mae’r boreau’n fwy ffurfiol – ffoneg, mathemateg, iaith, ond mae’r prynhawniau’n ddysgu yn yr awyr agored a thasgau dilys sy’n seiliedig ar ddarpariaeth.” (Ymarferydd)

Disgrifiodd nifer o uwch arweinwyr yr heriau sy'n gysylltiedig â dysgwyr yn pontio o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 3, gan ddatgelu canfyddiad bod hyn yn cynrychioli symudiad tuag at yr hyn a welwyd fel 'dysgu mwy ffurfiol' o Flwyddyn 3 ymlaen. Roedd nifer o gyfeiriadau at Gyfnod Allweddol 2 mewn trafodaethau, sy'n adlewyrchu iaith a ffordd o feddwl am y cwricwlwm sy'n gysylltiedig â threfniadau'r cwricwlwm blaenorol ac nid Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

### 3.1.5. Mae cynllun y cwricwlwm yn cael ei ddylanwadu gan ddealltwriaeth ysgolion o ymarfer sy'n addas i ddatblygiad, sy’n aml yn cael ei lywio gan y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dywedodd llawer o ymarferwyr fod cynllunio ar gyfer dysgu sylfaen yn esblygiad ‘naturiol’ o drefniadau o dan y Cyfnod Sylfaen blaenorol. Disgrifiodd ymarferwyr yn gyson y Cwricwlwm i Gymru fel rhywbeth a oedd yn ategu eu dulliau blaenorol, gan gyfrannu at ymdeimlad o barhad yn hytrach na newid sylweddol. Nododd yr ymarferwyr hyn fod y ffocws ar hyrwyddo annibyniaeth dysgwyr, profiadau dilys a dysgu yn yr awyr agored eisoes wedi’i hen sefydlu.

> “Rydw i bob amser wedi meddwl bod y Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn eithaf tebyg i’r Cyfnod Sylfaen beth bynnag… Roedd [y Cyfnod Sylfaen] yn debyg iawn o ran mynd gyda diddordeb y plentyn… mae’n drawsgwricwlaidd iawn. Mae gan y plant fwy o ryddid i ddewis pa fath o bethau maen nhw am eu defnyddio i’w helpu i ddatrys problem a’r math yna o beth.” (Uwch Arweinydd)

Hefyd, dywedodd ymarferwyr y rhoddwyd mwy o bwyslais ar gynnydd dysgwyr wrth gynllunio’r cwricwlwm. Nododd llawer o ysgolion eu bod wedi newid o gynllunio’n seiliedig ar bynciau neu dasgau i gynllunio sy’n canolbwyntio ar sgiliau a chynnydd datblygiadol ar draws y Meysydd dysgu a phrofiad. Disgrifiwyd hyn gan rai fel ‘dyfnhau’ ymarfer y Cyfnod Sylfaen yn hytrach na gwyro oddi wrtho.

Nododd llawer o ysgolion fod y Cwricwlwm i Gymru wedi eu hannog i gynllunio dysgu mewn ffyrdd a oedd yn fwy ymatebol i anghenion datblygiadol plant. Nododd rhai ysgolion fod y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn bwynt cyfeirio arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a bod modiwlau dysgu proffesiynol cysylltiedig hefyd yn ddefnyddiol wrth gefnogi datblygiad staff.

Roedd tystiolaeth yn dangos bod y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir wedi'i integreiddio i gynllunio mewn rhai ysgolion. Esboniodd ysgolion eraill eu bod wedi defnyddio rhannau o'r cwricwlwm nas cynhelir ar gyfer dosbarthiadau meithrin a derbyn, gan ddylunio cylchoedd dysgu newydd yn seiliedig ar y ddogfen. Nododd rhai ymarferwyr fod yr iaith yn y cwricwlwm nas cynhelir – yn enwedig yr iaith a oedd yn gysylltiedig â'r llwybrau datblygiadol – yn ymarferol ac yn werthfawr o ran egluro ymarfer i gynorthwywyr addysgu a staff cymorth, gan helpu i gefnogi datblygiad staff a chysondeb.

> “Rwy’n hoff iawn o’r ffordd y mae’r cwricwlwm heb ei gynnal wedi’i ysgrifennu… mae’r llwybrau datblygiadol yn haws eu deall… yn haws eu hesbonio i’m cynorthwywyr addysgu… na’r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig a’r disgrifiadau o ddysgu.” (Uwch Arweinydd)

### 3.1.6. Ymgorffori egwyddorion datblygiad plant yn y broses gynllunio

Rhoddodd llawer o ysgolion enghreifftiau o ffyrdd yr oedd egwyddorion datblygiad plant yn cael eu hymgorffori yn y broses o gynllunio’r cwricwlwm. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynllunio mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â, neu'n ymgorffori, y llwybrau datblygiadol perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol, lles.

> “Rydym yn cynllunio mwy yn seiliedig ar y llwybrau datblygiadol, felly byddai tasg yn cwmpasu pob un ohonynt. Yn flaenorol roeddem yn cynllunio un yn unig, er enghraifft archwilio neu ysgrifennu. Fodd bynnag, sylweddolon ni, os ydych chi'n cynllunio'r gweithgaredd hwnnw'n dda, eich bod chi'n dysgu cymaint o sgiliau beth bynnag. Felly nawr rydym yn cynllunio tasg agored ac yn cwmpasu llawer o feysydd sy’n rhan o’r llwybrau datblygiadol.” (Uwch Arweinydd)

- Cynllunio mewn ffyrdd sy'n cael eu harwain gan ddatblygiad yn hytrach na thasgau, wedi'u trefnu o amgylch cynnydd datblygiadol plant. Cyfeiriodd nifer o ysgolion at bwysigrwydd dylunio cwricwlwm sy'n ymatebol i ddatblygiad ac yn hyblyg.

> “Rydym yn gweld bod llawer mwy o anghenion o ran plant sy'n dod i'r feithrinfa… mae'n rhaid i’r broses gynllunio addasu, ac mae staff yn cael eu huwchsgilio i ddiwallu'r anghenion datblygu hynny.” (Uwch Arweinydd)

- Defnyddio arsylwi i lywio’r gwaith cynllunio ac i lunio profiadau dysgu, gan alluogi ymarferwyr i gefnogi’r camau nesaf ac addasu’r ddarpariaeth yn ymatebol mewn amser real.

> “Rydym wedi cymryd cam yn ôl ac yn arsylwi mwy… gan edrych pryd i gamu i mewn i fod yn hwylusydd… gan ganolbwyntio ar yr amgylchedd, galluogwyr, a diddordebau plant yn hytrach na ffitio plant i’n hagenda ni.” (Ymarferydd)

### 3.1.7. Dylanwad anghenion cymorth cynyddol dysgwyr ar gynllunio cwricwlwm

Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion fod nifer cynyddol o ddysgwyr ag ADY a mannau cychwyn datblygiadol is na'u cymheiriaid mewn blynyddoedd blaenorol yn effeithio ar sut y maent yn cynllunio eu cwricwla dysgu sylfaen. Tynnodd ymarferwyr sylw dro ar ôl tro at y canfyddiad bod gan rai dysgwyr anghenion cynyddol gymhleth pan fyddant yn dechrau dosbarthiadau meithrin a derbyn, gan gynnwys oedi mewn cyfathrebu a datblygiad cymdeithasol-emosiynol.

Mae anghenion cynyddol dysgwyr (ymysg dysgwyr ag ADY ac ar draws y boblogaeth dysgwyr yn fwy cyffredinol) wedi arwain at gynllunio yn dod yn fwy ymatebol i ddatblygiad, gydag ysgolion yn addasu'r cwricwlwm i sicrhau bod dysgu yn hygyrch i bawb. Disgrifiodd staff orfod ymgorffori ymyriadau ychwanegol fel 'Amser Bwced' (ymyrraeth wedi’i thargedu i helpu dysgwyr gydag anawsterau’n ymwneud â thalu sylw ac ymgysylltu), a rhaglenni lleferydd ac iaith wedi'u targedu i gefnogi rheoleiddio a chyfathrebu. Fel yr eglurodd un athro, "mae angen i ni roi gweithgareddau penodol ar waith ... i gefnogi sgiliau cymdeithasol". Datgelodd tystiolaeth o nifer o ysgolion fod canfyddiadau o barodrwydd datblygiadol dysgwyr yn llywio penderfyniadau ynghylch cynllunio cwricwlwm. Mae sylwadau sy'n cyfeirio at addasu’r gwaith cynllunio cwricwlwm oherwydd bod dysgwyr "islaw lle y dylent fod" yn tynnu sylw at anghysondeb rhwng canfyddiadau rhai ymarferwyr a chanllawiau statudol y Cwricwlwm i Gymru sy'n pwysleisio y dylai dulliau o gefnogi cynnydd gydnabod cyflymder cynnydd gwahanol ddysgwyr o ran eu dysgu ac nid cael eu seilio ar ganlyniadau sydd wedi'u cyfyngu gan amser.

Mae pwysau cyllidebol a phwysau staffio yn dylanwadu ymhellach ar gynllunio cwricwlwm. Dywedodd ysgolion, er bod angen cefnogaeth fwy dwys ar ddysgwyr, fod y gymhareb oedolion i ddysgwyr wedi lleihau, gan ei gwneud hi'n anoddach cyflwyno'r ddarpariaeth sydd ei hangen. Disgrifiodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr bod y cynnydd yn nifer y dysgwyr ag ADY yn eu hysgolion yn rhoi pwysau ychwanegol ar argaeledd staff.

> “Er fy mod i’n hoffi’r ddogfennaeth yn fawr iawn, rydym wedi canfod problemau cychwynnol mawr ac yn bennaf oherwydd ADY uchel phrinder oedolion…gallai hyn fod yn anhygoel, ond nid oes gennym y cyllid i wireddu rhannau ohono oherwydd nad oes gennym y gefnogaeth.” (Uwch Arweinydd)

### 3.1.8. Dysgu sylfaen fel blaenoriaeth ar gyfer gwella ysgolion

Yn ystod cyfweliadau, gofynnwyd i ysgolion a oedd ffocws ar ddysgu sylfaen fel blaenoriaeth ar gyfer gwella ysgolion ac a yw'n ymddangos felly yng nghynllun datblygu'r ysgol. Ar draws y sampl o ysgolion a gyfwelwyd, nid oedd dysgu sylfaen fel arfer yn cael ei restru'n benodol fel blaenoriaeth mewn cynlluniau datblygu ysgolion, er bod ymarferwyr yn aml yn cyfeirio ato fel rhan hanfodol o'r cwricwlwm. Wrth ymateb i gwestiynau am feysydd blaenoriaeth, nododd y rhan fwyaf o ysgolion fod cynlluniau datblygu ysgolion cyfredol yn canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd a lles dysgwyr. Ar draws y dystiolaeth a gasglwyd, roedd ymarferwyr yn adrodd yn gyson bod mireinio addysgeg dysgu sylfaen yn barhaus, amgylcheddau galluogi ac ymateb i anghenion datblygiadol ymhlith y dysgwyr ieuengaf yn flaenoriaethau, yn enwedig mewn ymateb i'r niferoedd cynyddol o ddysgwyr ag ADY.

## 3.2. Addysgeg

### 3.2.1. Crynodeb

Datgelodd tystiolaeth o ysgolion fod addysgeg wedi esblygu o ymarfer blaenorol y Cyfnod Sylfaen, er bod ysgolion hefyd yn cydnabod bod llawer o debygrwydd a bod rhai o'r elfennau sylfaenol yn parhau. O dan y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm i Gymru, mae chwarae yn rhan ganolog o'r cwricwlwm, yn ogystal â phwyslais ar gefnogi dysgu drwy brofiad dysgu holistaidd. Fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, adroddwyd bod dulliau addysgeg yn cael eu cynllunio'n fwy pwrpasol nag o dan y cwricwlwm blaenorol ac yn cael eu harwain gan ymarferwyr yn arsylwi dysgwyr yn fanwl. Adroddwyd hefyd bod dulliau addysgeg mewn dysgu sylfaen yn cynnwys amgylcheddau dysgu wedi'u saernïo'n fwy gofalus, lens ddatblygiadol gryfach, a newid nodedig yn y ffordd y mae ymarferwyr yn gweld eu rôl, o fod yn hyfforddwyr i fod yn hwyluswyr dysgu.

Mae'r adran hon yn archwilio pedair thema addysgeg gydgysylltiedig: dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a dysgu drwy brofiad, dysgu yn yr awyr agored fel nodwedd allweddol mewn addysgeg, ymarfer yn seiliedig ar arsylwi, a rôl newidiol oedolion. Mae'r adran hefyd yn rhestru newidiadau i addysgeg y cyfeirir atynt gan niferoedd llai o ysgolion i ddarparu enghreifftiau o ddulliau a gyflwynwyd neu a ehangwyd o dan y trefniadau cwricwlwm newydd.

### 3.2.2. Dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a dysgu drwy brofiad

Pwysleisiodd pob ysgol mai chwarae yw sylfaen dysgu cynnar o hyd. Fodd bynnag, dangosodd tystiolaeth gan ymarferwyr fod y ffordd y mae chwarae'n cael ei gynllunio, ei gefnogi a'i ddehongli wedi datblygu o dan drefniadau'r cwricwlwm newydd. Roedd tystiolaeth o newidiadau yn y ffordd y mae ymarferwyr yn canfod chwarae a'r cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno: cyfeiriodd ymarferwyr at chwarae fel y prif ddull ar gyfer datblygu dealltwriaeth gysyniadol, sgiliau mewn llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu, rhyngweithio cymdeithasol a datblygiad corfforol.

Rhoddodd ymarferwyr mewn llawer o ysgolion enghreifftiau o sut y maent yn ymgorffori dysgu ieithoedd a mathemateg mewn chwarae. Disgrifiodd un athro droi gweithgaredd ffoneg a rhythm yn gêm ymdrochol, gyda thema heddlu i adlewyrchu diddordeb y grŵp.

> "Rydym yn defnyddio chwarae ar gyfer popeth, gan gynnwys dysgu. Rydw i wedi bod yn dysgu ffoneg yr wythnos hon ac mae'r plant dangos diddordeb mawr yn yr heddlu. Felly, gan gysylltu hyn â dysgu am rythmau a phatrymau geiriau… Dywedais wrthyn nhw mai nhw oedd yr heddlu a'm bod i wedi dwyn llwyth o bethau a bod angen iddyn nhw fy nal i. Roedden nhw'n sefyll ar un ochr i'r ystafell ddosbarth ac roedd yn rhaid iddyn nhw gamu neu neidio i guriad y geiriau. Felly un o'r pethau roeddwn i wedi'i ddwyn oedd siaced, ac maen nhw'n cymryd dau gam tuag ata i 'sia-ced', ac yn y blaen." (Ymarferydd)

Amlygodd y cyfweliadau nad yw chwarae'n cael ei ystyried mewn ffordd unffurf a bod gwahanol fathau o chwarae'n cael eu darparu i gefnogi gwahanol sgiliau a grwpiau oedran. Dywedodd ymarferwyr fod chwarae'n datblygu ar draws grwpiau oedran ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn profiadau ystyrlon sy'n hyrwyddo sgiliau, dealltwriaeth a chynnydd mewn dysgu. Crynhodd un ymarferydd hyn fel dilyniant o archwilio dan arweiniad y dysgwr ymhlith y dysgwyr ieuengaf tuag at gyfleoedd mwy strwythuredig i ddysgwyr hŷn mewn dysgu sylfaen.

> "Yn y feithrinfa, defnyddir chwarae rhydd bron yn gyfan gwbl, gydag oedolion yn camu i mewn yn ôl yr angen... Wrth i blant symud ymlaen yn yr ysgol, mae llai o chwarae rhydd yn raddol a mwy o weithgareddau chwarae wedi'u cynllunio a dan arweiniad oedolion." (Ymarferydd)

Pwysleisiodd ymarferwyr bwysigrwydd darparu profiadau dilys, go iawn fel rhan o addysgeg sy'n seiliedig ar chwarae. Disgrifiodd athrawon sut yr oeddent yn dilyn diddordebau'r plant mewn gweithgareddau estynedig sy'n seiliedig ar brofiad neu sefyllfaoedd cyfarwydd i ddyfnhau ymgysylltiad. Dechreuodd un enghraifft a ddarparwyd gyda'r dosbarth yn arsylwi'r postmon yn dod â llythyrau i'r ysgol, a arweiniodd at staff yn nodi cyfle i greu dilyniant dysgu dilys yn seiliedig ar ddiddordeb y plant.

> "Roedd y plant yn chwilfrydig pan gyrhaeddodd y postmon, roedd hyn y llynedd, ac roedd y fan y tu allan i'r ysgol ac roedden nhw'n gofyn 'beth sy'n digwydd? beth mae e'n ei ddosbarthu?' ac yna fe ddechreuon nhw godi'r blociau Lego mawr oedd yn yr awyr agored i fod yn barseli roedden nhw'n eu dosbarthu yn yr awyr agored. Bam, iawn, mae gennym gyfleoedd i ddysgu ysgrifennu yma nawr. Roedden ni wedi bod yn siarad am werthfawrogi'r bobl sy'n ein helpu ni, felly fe wnaethon ni gardiau diolch i'r fenyw lolipop, felly rydyn ni'n rhoi cardiau mewn amlenni a phapur lapio a llinyn. Felly, rydyn ni'n manteisio ar y cyfleoedd hynny ar gyfer dysgu dilys." (Ymarferydd)

Cyfeiriodd ymarferwyr eraill hefyd at weld cyfleoedd dysgu yn chwilfrydedd y plant a chysylltu digwyddiadau bob dydd â llythrennedd, rhifedd a'r celfyddydau mynegiannol.

### 3.2.3. Dysgu yn yr awyr agored fel nodwedd allweddol mewn addysgeg

Cyfeiriodd llawer o ymarferwyr at ddysgu yn yr awyr agored fel agwedd hanfodol ar addysgeg dysgu sylfaen. Nododd ysgolion y cyfleoedd y mae dysgu yn yr awyr agored yn eu cynnig ar gyfer datblygu llythrennedd corfforol, meithrin chwilfrydedd, a chefnogi lles, gan bwysleisio ei bwysigrwydd i gynnydd, datblygiad ac ymgysylltiad plant mewn dysgu.

> "Mae darpariaeth awyr agored yn bwysig iawn i ni mewn dysgu sylfaen… dylai pob plentyn fod yn defnyddio safle'r ysgol goedwig ar gyfer datblygiad corfforol, ond hefyd ar gyfer yr agwedd llesiant ohono hefyd…. Mae gan bob dosbarth o'r feithrinfa i Flwyddyn 2 ardal awyr agored gyda drws yn yr ystafell ddosbarth, y gellir ei hagor ar gyfer llif rhydd." (Uwch Arweinydd)

Cafwyd cyfeiriadau mynych at symud i mewn ac allan rhwng mannau dan do a mannau awyr agored drwy gydol y cyfweliadau, gan ddangos bod ysgolion yn awyddus i sicrhau parhad rhwng y ddau ac i ganiatáu i blant ddewis amgylcheddau sy'n cefnogi eu gweithgareddau chwarae ac archwilio orau. Tanlinellodd llawer o ymarferwyr hefyd bwysigrwydd mynediad i ardaloedd awyr agored, gan nodi'r manteision o ran lles, yn enwedig i blant a allai fod â mynediad cyfyngedig i fannau awyr agored diogel yn eu cymunedau.

> "Dydy llawer o blant ddim yn mynd allan i'r awyr agored… felly i ni, mae mynediad i'r awyr agored yn bwysig iawn." (Ymarferydd)

Esboniodd nifer o ymarferwyr nad yw dysgu yn yr awyr agored yn ymwneud â throsglwyddo gweithgareddau dan do i'r awyr agored yn unig. Yn hytrach, mae'n ymwneud â 'manteisio' ar amgylchedd dysgu sy'n gwahodd gwahanol ffurfiau o ymholi, risg a phrofiad, gan ddatblygu llythrennedd corfforol drwy, ymhlith pethau eraill, geginau mwd, treiciau, cerrig camu a chwarae naturiol.

Cyfeiriodd ymarferwyr at fanteision ehangach dysgu yn yr awyr agored wrth gefnogi cynnydd dysgwyr, yn enwedig drwy chwarae dychmygus a phrofiadau synhwyraidd. Disgrifiodd ymarferwyr ddysgu yn yr awyr agored fel rhan hanfodol o addysgeg dysgu sylfaen a arweiniodd at arsylwi gwelliannau datblygiadol. Darparodd uwch arweinwyr ac athrawon enghreifftiau yn cysylltu dysgu yn yr awyr agored â chynnydd dysgwyr mewn sgiliau motor bras a manwl, sgiliau cymdeithasol, sgiliau iaith a datblygiad gwybyddol.

> "Mae'r plant yn datblygu eu llythrennedd corfforol yn yr awyr agored yn ogystal â'u dysgu drwy lythrennedd, rhifedd… [drwy] y profiadau hynny." (Ymarferydd)

Nododd ymarferwyr hefyd fod amgylcheddau awyr agored yn darparu cyfleoedd i gefnogi dysgu ystyrlon a dilys a all hybu ymgysylltiad a diddordeb, gan greu'r amodau lle mae'r hyn addysgir yn aros yn y cof.

> "Os yw'n fywyd go iawn, yna mae wir yn helpu i ennyn eu diddordeb mewn pethau." (Uwch Arweinydd)

> "Mae [dysgu yn yr awyr agored a dysgu sy'n seiliedig ar chwarae] yn fwy ystyrlon a phwrpasol iddyn nhw… maen nhw'n fwy tebygol o'i gofio … maen nhw wir yn mwynhau sut maen nhw'n dysgu." (Ymarferydd)

Cyfeiriodd rhai ymarferwyr at eu hysgol goedwig fel rhan annatod o'r cwricwlwm mewn dysgu sylfaen. Siaradodd yr ymarferwyr hyn am bwysigrwydd darparu profiadau dysgu awyr agored ac ysgol goedwig fel rhan reolaidd o addysg gynnar, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer archwilio, datrys problemau, a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol.

### 3.2.4. Ymarfer sy'n seiliedig ar arsylwi

Mae tystiolaeth yn dangos bod ysgolion yn ystyried arsylwi fel nodwedd ganolog o ymarfer dysgu sylfaen sy'n pennu sut mae amgylcheddau dysgu, adnoddau, profiadau a

rhyngweithiadau oedolion â dysgwyr yn cael eu llunio. Darparodd yr ysgolion amrywiol enghreifftiau o ffyrdd y defnyddir arsylwi i gefnogi addysgu a dysgu.

Un enghraifft oedd defnyddio arsylwi i addasu darpariaeth i anghenion, gan ganolbwyntio weithiau ar blant penodol bob wythnos, i wella neu deilwra'r cymorth mewn ymateb i faterion neu anghenion datblygu penodol.

> "Bob wythnos mae 'na blant allweddol… y mae staff yn eu harsylwi ac… yna'n gwella'r ystafell ddosbarth i gefnogi'r plentyn hwnnw." (Uwch Arweinydd)

Dangosodd sylwadau gan ysgolion eraill eu bod yn teimlo bod ymarfer sy'n seiliedig ar arsylwi o fudd i ddysgwyr yn fwy cyffredinol, gan gefnogi profiad mwy cynhwysol o'r cwricwlwm. Cyfeiriodd ymarferwyr at ddefnyddio arsylwi i sicrhau nad oes unrhyw 'blant tawelach yn mynd o dan y radar' a gwneud newidiadau i fannau yn yr ystafell dosbarth er mwyn 'ymgysylltu â phob plentyn'. Mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod ymarferwyr yn anelu'n fwriadol at sicrhau bod y cwricwlwm a'r addysgeg yn gweddu i anghenion y dysgwyr.

Nododd ymarferwyr fod arsylwi wedi'i ddefnyddio i arwain cymorth ac ymyriadau wedi'u targedu. Dywedodd ymarferwyr eu bod yn trafod nodi anghenion datblygiadol penodol ac addasu darpariaeth i gefnogi cynnydd dysgwyr yn unol â hynny.

> "Os byddwn yn arsylwi nad ydyn nhw'n gallu didoli, mae angen i ni roi gwelliannau ar waith… fel cyfleoedd chwarae dan arweiniad i gefnogi datblygiad y plentyn hwnnw." (Uwch Arweinydd)

Nododd ymarferwyr eraill fod arsylwi yn cael ei ddefnyddio ar y cyd. Nodwyd bod staff yn ymgynghori'n rheolaidd i fyfyrio ar arsylwadau ac addasu eu hymarfer, gan ddangos dull myfyriol, ailadroddol o wireddu'r cwricwlwm.

Trafododd ymarferwyr hefyd bwysigrwydd deall pryd i beidio ag ymyrryd ar ôl arsylwi gweithgaredd dysgu.

> "Rydym yn ceisio gwneud llawer o waith ar pryd i ymyrryd pan fyddwch chi'n arsylwi… weithiau gallwch chi ymyrryd a difetha'r hyn sy'n digwydd." (Ymarferydd)

Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd barn broffesiynol, dealltwriaeth a sensitifrwydd athrawon fel rhan o arsylwi gan ymarferwyr.

Yn olaf, dangosodd tystiolaeth y gall arsylwi gan ymarferwyr fod yn offeryn pwysig o ran cefnogi tegwch a chynhwysiant. Fel y nodwyd mewn adrannau eraill o'r adroddiad hwn, mae'r niferoedd cynyddol o ddysgwyr ag ADY ac anghenion cyfathrebu yn golygu y gall arsylwi helpu i nodi rhwystrau i ddysgu'n gynnar a chefnogi staff i sicrhau darpariaeth gynhwysol neu atgyfeirio am gymorth pellach. Adroddwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn cyd-destunau lle mae plant yn cyrraedd yr ysgol gydag oedi datblygiadol neu brofiad cymdeithasol blaenorol cyfyngedig.

### 3.2.5. Ymarferwyr fel oedolion sy'n galluogi dysgu

Roedd tystiolaeth o newid yn rôl oedolion, a ddisgrifiwyd gan lawer o ymarferwyr fel newid o ‘gyflwyno’ cynnwys cwricwlwm i alluogi, hwyluso a chefnogi dysgu mewn ffyrdd sy’n anelu at adlewyrchu galluogedd plant a meithrin profiadau dysgu cadarnhaol. Cyfeiriodd ymarferwyr yn fynych at ‘gamu’n ôl’ i arsylwi dysgu wrth iddo ddigwydd, gan ymyrryd dim ond pan fo’n briodol i arwain ac ymestyn y dysgu pan fo angen.

> “Rydym wedi cymryd cam mwy fyth yn ôl … gan edrych pryd i gamu i mewn i fod yn hwylusydd yn y dysgu.” (Uwch Arweinydd)

Mae hyn yn adlewyrchu newid addysgegol tuag at weld plant fel ysgogwyr dysgu, gydag oedolion yn ymateb i'r angen a welwyd.

Mae rôl newidiol oedolion hefyd yn gysylltiedig â'r syniad o'r 'amgylchedd effeithiol', sy'n rhan o'r canllawiau Galluogi Dysgu. Dywedodd rhai ymarferwyr a gyfwelwyd eu bod yn canolbwyntio ar y tair elfen alluogi a nodir yn y canllawiau: oedolion sy'n galluogi dysgu, amgylcheddau effeithiol, a phrofiadau sy’n ennyn diddordeb. Dywedodd yr ymarferwyr hyn eu bod bellach yn fwy bwriadol wrth adeiladu amgylcheddau dysgu sy'n hyrwyddo annibyniaeth, gan lunio'r amodau ar gyfer dysgu yn hytrach na chyflwyno cynnwys mewn modd anhyblyg.

> “Rydym yn canolbwyntio’n fawr ar ein hamgylchedd a’r adnoddau a’r galluogwyr… oedolion sy’n galluogi dysgu, yr amgylchedd effeithiol, y profiadau sy’n ennyn diddordeb.” (Uwch Arweinydd)

Mewn llawer o achosion, cyfeiriodd ymarferwyr at y cydweithio pwysig sy'n digwydd rhwng athrawon a staff cymorth, gan gyfeirio at ddulliau a rennir o gyflawni rolau fel oedolion sy’n galluogi dysgu. Dywedodd staff eu bod yn cydweithio ar arsylwi, asesu, newidiadau i'r amgylchedd dysgu, cyfathrebu â rhieni a chylchoedd cynllunio. Mewn ambell achos, awgrymodd y sylwadau fod y dull proffesiynol a rennir yn arwydd o newid tuag at arweinyddiaeth ddosbarthedig o fewn addysgeg y blynyddoedd cynnar. Er bod llawer o ysgolion yn cyfeirio at rolau gweithredol Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) a Chynorthwywyr Addysgu (CA) wrth gynllunio a chyflwyno dysgu ochr yn ochr ag athrawon, nododd nifer lai o ysgolion fod dosbarthiadau meithrin yn cael eu 'rhedeg gan' CALU neu fod y CALU yn eu harwain.

> “Ar hyn o bryd mae ein meithrinfa’n rhan-amser ac yn cael ei rhedeg gan CALU… mae CALU’r feithrinfa wedi gwneud llawer iawn o waith ar y cwricwlwm newydd nas cynhelir ac rydym wedi rhoi hynny ar waith eleni… lluniodd gynllun hirdymor ar gyfer y feithrinfa… wedi’i rannu’n bynciau awgrymedig… geirfa allweddol… profiadau allweddol yr oedd hi eisiau i’r plant eu cael bob hanner tymor.” (Uwch Arweinydd)

Disgrifiodd un CALU sy'n rhedeg y feithrinfa yn ei ysgol y ffordd yr oedd yn arwain yr addysgu a’r dysgu, gan werthfawrogi rôl bod yn oedolyn sy’n galluogi dysgu.

“Rydym yn cynnal tasg chwarae wedi’i chynllunio bob dydd… rydym yn trefnu’r holl wahanol ardaloedd… mae’r rhan fwyaf o’n hamser nawr yn cael ei dreulio’n chwarae gyda’r plant ac yn arsylwi’r plant.” (Ymarferydd)

### 3.2.6. Enghreifftiau o newidiadau i addysgeg a godwyd ar draws y sampl o ysgolion

Ar draws y dystiolaeth, darparodd ysgolion nifer o enghreifftiau o newidiadau mewn addysgeg dysgu sylfaen. Yn aml, roedd y newidiadau hyn yn unigryw i'w cyd-destun penodol hwy ac, o'r herwydd, nid yw'n glir a yw’r rhain yn batrymau y gellir eu cyffredinoli ar draws y system ehangach. Serch hynny, fe'u rhestrir yma i ddangos newidiadau mewn arferion addysgu a ystyriwyd yn ddatblygiadau cadarnhaol wrth gefnogi dysgu sylfaen:

- newid tuag at gynllunio ymatebol a dysgu mwy hyblyg
- mwy o bwyslais ar ddulliau sy'n seiliedig ar ymholi, cysylltu sgiliau â gweithgareddau a chwarae a dyfnhau dealltwriaeth dysgwyr

  “I ni, rwy'n credu ei fod yn ymwneud â chael y gallu i … gyrraedd lefel ddyfnach a chael y plant i ddeall yn iawn beth maen nhw'n ei wneud.” (Ymarferydd)
- darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae di-baid, gan sicrhau bod dysgwyr yn gallu profi'r amgylchedd dysgu yn fwy ‘rhydd’ ac mewn ffyrdd mwy hyblyg (cyfeiriodd nifer bach o ysgolion at eu bod wedi rhoi'r gorau i ‘amseroedd egwyl’ ffurfiol i gefnogi parhad)
- cael gwared ar lyfrau ymarfer dysgwyr mewn dosbarthiadau Derbyn a Blwyddyn 1 i ganolbwyntio yn lle hynny ar gofnodi gwaith dysgwyr yn 'ystyrlon' ac yn briodol
- mwy o bwyslais ar gyfranogiad dysgwyr mewn penderfyniadau am eu profiadau dysgu eu hunain
- ffocws penodol ar gryfhau ffoneg mewn dysgu sylfaen, gydag ysgolion yn cyflwyno rhaglenni wedi'u targedu i gefnogi darllen

## 3.3. Cynnydd ac asesu

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar drefniadau asesu o fewn ysgolion i sicrhau cynnydd dysgwyr wrth fynd i'r afael â Chwestiwn Ymchwil 1 'Sut mae ysgolion yn cynllunio a gwireddu cwricwlwm sy'n briodol yn addysgegol ac yn ddatblygiadol ar gyfer dysgu sylfaen sy'n cefnogi dysgwyr mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru'. Darperir crynodeb o'r pwyntiau allweddol isod; yna dilynir hyn gan drafodaeth fanylach.

### 3.3.1. Crynodeb

Manylodd rhai ysgolion ar newidiadau i'r trefniadau asesu i sicrhau cyfatebiaeth ag asesu mewn dysgu sylfaen o dan y Cwricwlwm i Gymru. Roedd rhai wedi defnyddio'r canllawiau cyhoeddedig ar drefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir a rhoddwyd enghreifftiau hefyd o offer asesu allanol a ddefnyddiwyd.

Cynhaliwyd asesiadau dechreuol fel mater o drefn yn ystod wythnosau cyntaf dysgwr yn yr ysgol er mwyn rhoi dealltwriaeth o anghenion dysgwyr a'u datblygiad, yn unol â gofynion statudol. Cyfeiriodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr at asesiadau ar ddechrau'r ysgol fel asesiadau 'sylfaen' ac roedd rhai wedi datblygu eu hasesiadau dechreuol yn seiliedig ar yr asesiad sylfaenol statudol blaenorol o dan y Cyfnod Sylfaen.

Roedd arsylwadau yn ddull canolog o asesu a defnyddiwyd rhyngweithiadau a llyfrau nodiadau llawr [troednodyn 3] fel dulliau ar gyfer cofnodi cynnydd dysgwyr. Roedd rhai enghreifftiau o symud tuag at asesiadau mwy ffurfiol gan gynnwys symud i ffwrdd o arsylwadau ym Mlwyddyn 1 a 2 a dysgwyr yn defnyddio llyfrau gwaith.

Disgrifiodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr sut y defnyddiwyd asesiadau i deilwra'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr unigol. Defnyddiwyd asesiadau hefyd i gydnabod a chefnogi cynnydd dysgwyr ar adegau rheolaidd yn ystod y flwyddyn academaidd a thrwy gydol eu taith ysgol o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6.

Disgrifiodd uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn rhai ysgolion ddull holistaidd o asesu gan ystyried y 'plentyn cyfan' a'r llwybrau datblygiadol a nodir yn y canllawiau Galluogi Dysgu.

Mewn sawl ysgol, cododd ymarferwyr bryderon ynghylch sut i gynnal asesiadau mewn dysgu sylfaen mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i "fesur" cynnydd dysgwyr. Disgrifiwyd ansicrwydd ynghylch "sut y dylai cynnydd edrych," gan nodi diffyg canfyddedig o "safonau" neu "feincnodau" wedi'u diffinio i arwain barn am gynnydd. Dywedwyd bod hyn wedi arwain at densiwn rhwng dibynnu ar dystiolaeth arsylwadol gynhwysfawr, ansoddol - yr oedd llawer yn ei gwerthfawrogi - ac awydd am ddata mwy strwythuredig i gefnogi neu ddilysu eu hasesiadau.

---

Troednodyn:
[3] Llyfrau mawr gwag sy'n cael eu gosod ar y llawr er mwyn eu defnyddio'n hawdd yw llyfrau nodiadau llawr ac fe'u defnyddir i gofnodi profiadau dysgu yn ystod gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr ac sy'n seiliedig ar chwarae. Maent yn caniatáu i ddysgwyr ymgysylltu ar y cyd ac maent yn esblygu gyda diddordebau'r dysgwyr. (Structural Learning, 2026).

### 3.3.2. Dulliau o asesu

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynnal asesiad dechreuol pan fydd dysgwr yn dechrau mewn ysgol/lleoliad. Gall yr asesiadau hyn roi dealltwriaeth o ble maen nhw ar eu taith ddysgu a bod yn sail i gynllunio ac addysgu a dysgu. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod yr asesiadau dechreuol wedi'u cynnal o fewn yr ychydig wythnosau cyntaf i ddysgwr ddechrau yn yr ysgol; tra bod rhai wedi nodi bod hyn o fewn y chwe wythnos gyntaf. Disgrifiodd rhai o'r ysgolion hyn fod llwybrau datblygiadol wedi'u hadlewyrchu yn rhai o asesiadau dechreuol yr ysgol.

> "Rydym yn cynnal arsylwad ac asesiad chwe wythnos pan fydd y plant yn dechrau… rydym yn asesu'r meysydd [datblygu] o'r ddogfen asesu [cwricwlwm nas cynhelir] ac rydym yn eu gwylio a sut maen nhw'n chwarae, os ydyn nhw'n defnyddio mathemateg, sut mae eu datblygiad corfforol, ac yna rwy'n ysgrifennu adroddiad sy'n cael ei rannu gyda'r rhieni ac mae'r rhieni'n dod i mewn i siarad amdano." (Ymarferydd)

Wrth drafod asesiadau dechreuol, cyfeiriodd rhai ymarferwyr at y rhain fel asesiadau 'sylfaenol'. Roedd dwy ysgol wedi defnyddio'r asesiad sylfaenol blaenorol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu eu hasesiadau dechreuol. Yn un o'r ysgolion hyn, roedd yr asesiad dechreuol yn seiliedig ar yr asesiad sylfaenol; fodd bynnag, ar ôl dod yn ymwybodol o'r canllawiau asesu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir yn fwy diweddar, roedd yn bwriadu dechrau defnyddio'r dull hwn. Esboniodd yr uwch arweinydd ymhellach fod gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer asesu ar ddechrau'r ysgol yn cyd-fynd â chanllawiau'r lleoliadau nas cynhelir, er nad oeddent yn defnyddio'r derminoleg a'r penawdau a nodir yn y ddogfen ganllawiau.

Rhoddodd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr enghreifftiau o sut mae asesu'n cael ei gynnal mewn ymarfer dyddiol a sut mae'n cael ei gynnwys wrth gynllunio'r cwricwlwm ac yn yr addysgu a'r dysgu, yn unol â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Roedd cael dealltwriaeth barhaus o gynnydd dysgwyr yn ogystal â'u "diddordebau a'u galluoedd" yn bwydo i'r "camau nesaf" (Uwch Arweinydd) ar gyfer dysgwyr. Manylwyd ar enghraifft o hyn mewn un ysgol lle yr oedd y dysgwyr yn gwneud papur lapio Nadolig a gwelodd yr ymarferwyr fod dysgwyr yn cael trafferth gyda phatrymau, felly mewn ymateb i hynny, fe wnaethant gynllunio rhagor o gyfleoedd i archwilio ac adnabod patrymau mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, gan gefnogi eu cynnydd.

Esboniodd uwch arweinydd o'r ysgol arbennig yn y sampl, er nad oedd eu dysgwyr yn cael eu hasesu'n ffurfiol wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, fod staff yn canolbwyntio yn hytrach ar feithrin perthynas â phob dysgwr er mwyn iddynt allu deall eu hanghenion a theilwra'r cwricwlwm iddynt.

Tynnwyd sylw gan rai ysgolion at arsylwi fel dull asesu allweddol a sut y defnyddiwyd hyn wrth gynllunio a chynhyrchu adroddiadau ar gynnydd dysgwyr. Defnyddiwyd y rhain yn bennaf gyda dysgwyr meithrin a dosbarth derbyn, ond nododd rhai ysgolion newid tuag at asesu mwy strwythuredig a ffurfiol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 a 2 (trafodir hyn ymhellach isod).

“Mae llawer o’n hasesiadau’n cael eu gwneud a ffurf arsylwi plant, felly rydyn ni’n rhoi pwyslais mawr ar ein harsylwadau. Ac nid oedd y pethau hynny ar waith o’r blaen [cyn y Cwricwlwm i Gymru], felly mae hynny wedi newid.” (Uwch Arweinydd/Ymarferydd)

Roedd yna hefyd ychydig o enghreifftiau o ryngweithiadau a llyfrau nodiadau llawr yn cael eu defnyddio i gefnogi asesu ac i ddogfennu’r dysgu. Mewn un ysgol, roedd taflenni arsylwi a gwblhawyd gan staff wedi'u cynnwys yn llyfrau nodiadau llawr y dysgwyr, ochr yn ochr â lluniau a oedd yn annog y dysgwyr i fyfyrio ar yr hyn yr oeddent wedi bod yn ei ddysgu.

“Mae’n well gen i luniau a llyfrau nodiadau llawr. Gall plant eu gweld hefyd, fel y gallant edrych yn ôl ar yr hyn maen nhw wedi’i ddysgu.” (Uwch Arweinydd)

Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion wedi mabwysiadu dulliau mwy strwythuredig a ffurfiol o asesu gan ddefnyddio, er enghraifft, llyfrau gwaith i ddangos tystiolaeth o waith. Dywedodd un ysgol ei bod wedi defnyddio: “Profion Cymru Gyfan [ar gyfer Blwyddyn 2], rydym yn dal i ddefnyddio’r data hynny…rydym yn dal i ddefnyddio hynny, pethau fel asesiadau SPAG[troednodyn 4]…rydym yn dal i ddefnyddio’r hen ddulliau traddodiadol[troednodyn 5]” (Uwch Arweinydd/Ymarferydd). Trafodwyd defnyddio asesiadau mwy ffurfiol yn bennaf yng nghyd-destun Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. I ychydig o ysgolion, trafodwyd hyn fel rhan o baratoi dysgwyr ar gyfer Blwyddyn 3, sydd, fel y nodwyd uchod yn 3.1.5, yn awgrymu bod rhai ysgolion yn parhau i weld Blwyddyn 3 fel cyfnod pontio i gam neu gyfnod gwahanol o’r cwricwlwm, canfyddiad y gellir dadlau ei fod wedi’i wreiddio yn y cwricwlwm blaenorol.

Roedd ymarferwyr mewn dwy ysgol wedi datblygu eu dulliau asesu eu hunain i gefnogi cynnydd mewn ffoneg a rhifedd. Defnyddiodd un ymarferydd y canlyniadau ar gyfer ei “wybodaeth ei hun i weld ble mae plant wedi cyrraedd” ac adolygodd y canlyniadau ar ôl ychydig wythnosau i weld pa gynnydd a wnaed. Dywedodd yr ymarferydd arall, a oedd yn athrawes feithrin, ei bod yn addysgu hanfodion ffoneg a bod yr asesiad wedi cael ei ddefnyddio i “weld a oedden nhw [dysgwyr] wedi dysgu hynny i gyd, yn barod i ddechrau cam dau ffoneg yn y dosbarth derbyn” (Ymarferydd). Dywedwyd hefyd y defnyddiwyd offer rhaglenni asesu fel WellComm[troednodyn 6], Tric a Chlic[troednodyn 7], Twinkl[troednodyn 8] a Phrawf Darllen a Deall Brawddegau Salford [troednodyn 9] mewn rhai ysgolion.

Defnyddiwyd asesiadau hefyd mewn rhai ysgolion i adolygu cynnydd dysgwyr yn y tymor byr ac, mewn rhai achosion, dros gyfnod hwy; mewn un ysgol, adolygwyd cynnydd drwy gydol taith ysgol y dysgwyr o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6. Roedd ysgol arall yn

---

Troednodiadau:
[4] Asesiadau Sillafu, Atalnodi a Gramadeg (SPAG - *Spelling, Punctuation and Grammar assessments*).
[5] Er na wnaeth y cyfranogwr wneud hynny’n glir, mae'n debygol ei fod yn cyfeirio at ddulliau asesu o dan y cwricwlwm blaenorol gan ei fod wedi gweithio yn y system addysg yng Nghymru cyn i’r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno.
[6] Mae WellComm yn becyn cymorth lleferydd ac iaith sy'n gallu adnabod dysgwyr sydd ag anawsterau cyfathrebu posibl a gellir ei ddefnyddio i fonitro cynnydd a darparu cymorth wedi'i dargedu (GL Assessment, 2026).
[7] Mae Tric a Chlic yn rhaglen ffoneg synthetig Gymraeg ar gyfer plant 3-7 oed (Tric a Chlic, 2026).
[8] Mae Twinkl yn gyhoeddwr addysgol ar-lein sy'n cynhyrchu adnoddau cynllunio ac asesu (Twinkl, 2026).
[9] Mae’r Prawf Salford Sentence Reading and Comprehension yn brawf parodrwydd a dealltwriaeth lleferydd ar gyfer dysgwyr rhwng 5 a 16 oed (Hachette Learning, 2026).

defnyddio system raddio RAG (coch, melyn, gwyrdd) o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6 i asesu a oedd dysgwr wedi dangos sgiliau o fewn camau cynnydd.

### 3.3.3. Datblygiad plant

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn mynegi meysydd craidd datblygiad plant drwy'r llwybrau datblygiadol. Roedd ysgolion yn amrywio o ran pa mor benodol yr oeddent yn cyfeirio at y llwybrau datblygiadol wrth wneud sylwadau ar y ffyrdd yr oedd egwyddorion datblygiad plant yn cael eu hadlewyrchu mewn trefniadau asesu. Nododd rhai ysgolion mai'r llwybrau oedd y sail i'r ffordd yr oedd ymarferwyr yn ystyried asesu. Yn yr ysgolion hyn, nododd uwch arweinwyr hefyd fod y llwybrau datblygiadol yn galluogi gwell dealltwriaeth o ddatblygiad plant ymhlith athrawon a staff cymorth.

Esboniodd un uwch arweinydd fod gan asesiad eu hysgol ffocws datblygiadol a bod cysylltiad agos rhwng yr asesiad a chynllunio i sicrhau profiadau dysgu wedi'u targedu. Disgrifiwyd yr ysgol hon fel un â nifer mawr o ddysgwyr ag ADY ac roedd yr asesiad wedi'i fframio o amgylch deall beth oedd dysgwyr yn "barod ar ei gyfer yn ddatblygiadol". Cyfrannodd cynnwys meysydd datblygiad plentyn, wedi'u fframio drwy'r pum llwybr datblygiadol, at gael dealltwriaeth holistaidd o gynnydd y dysgwr, "gan edrych ar bob agwedd ar ddysgu a datblygiad y plentyn" (Uwch Arweinydd).

> "Ar ddiwedd pob tymor, byddaf yn llunio adroddiad byr ar bob un o'r llwybrau datblygiadol hynny yn seiliedig ar yr ein harsylwadau a'n haddysgu. Felly erbyn diwedd y flwyddyn, mae gennych chi hyfryd, holistaidd o'r plentyn, sy'n wych oherwydd mae gennych bethau clir y mae'r plentyn wedi'u dweud a sut mae wedi datblygu. Rwy'n meddwl mai dyna'r ffordd ymlaen mewn gwirionedd." (Uwch Arweinydd/Ymarferydd)

Fel y dangosir yn adran 3.1.6, roedd rhai ysgolion wedi defnyddio'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir i lywio eu gwaith o gynllunio'r cwricwlwm. Roedd rhai ysgolion hefyd wedi defnyddio'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir i ddatblygu eu dulliau o asesu. Gwelwyd bod defnyddio'r canllawiau hyn yn ategu ac yn cefnogi sut roedd yr ysgolion hyn yn mynd ati i asesu i sicrhau bod datblygiad plant yn cael ei ddeall drwy'r llwybrau datblygiadol.

> "Mae ein hasesiad cychwynnol bellach yn cyd-fynd â'r cwricwlwm nas cynhelir, felly rydych chi'n cael y ddealltwriaeth ddi-dor honno o ddatblygiad plant o leoliadau cyn y meithrin hyd at gam cynnydd un ac yna mae gennym asesiadau cychwynnol [dechreuol] ac asesiadau terfynol. Felly, ceir parhad yn yr hyn rydyn ni'n edrych arno." (Uwch Arweinydd/Ymarferydd)

Mewn achosion eraill, cyfeiriodd ysgolion at egwyddorion datblygiad plant yn fwy cyffredinol, gan ddisgrifio mannau cychwyn datblygiadol dysgwyr, eu 'parodrwydd' neu 'ble maen nhw' yn eu dysgu heb sôn yn benodol am y llwybrau datblygiadol.

### 3.3.4. Safbwyntiau ar asesu

Tynnodd y trafodaethau gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr sylw at safbwyntiau cymysg ar werth gwahanol ddulliau o asesu ar gyfer dysgu sylfaen. Nododd rhai uwch arweinwyr ac ymarferwyr fod newidiadau a wnaed i asesu a gyflwynwyd drwy'r Cwricwlwm i Gymru wedi eu galluogi i gael dealltwriaeth o'r plentyn 'yn ei gyfanrwydd', gan ystyried agweddau ar ddatblygiad plentyn ac anghenion y dysgwr. Roedd staff o'r ysgol arbennig wedi datblygu eu "hiaith cynnydd" eu hunain yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o gynnydd mewn perthynas â dysgwyr yn eu hysgol hwy, gan greu "asesiadau mwy ystyrlon".

> "Rwy'n mwynhau'r elfen asesu yn fawr iawn…po fwyaf y byddwn ni'n arsylwi'r plant. Rydw i wedi dod i adnabod y plant yn llawer gwell ers gwneud y cwricwlwm nas cynhelir ac rydw i wedi cael gweld sut maen nhw'n chwarae a sut maen nhw'n dysgu ac rydyn ni i gyd yn diwallu eu hanghenion." (Ymarferydd)

Serch hynny, nododd ambell ysgol bryderon ynghylch diffyg eglurder o ran sut i "fesur" cynnydd dysgwyr. Tynnwyd sylw at ddiffyg "safonau" a "meincnodau" o fewn Cwricwlwm i Gymru, gan greu ansicrwydd ynghylch sut i asesu cynnydd. Mynegodd uwch arweinwyr o dair ysgol fod yr asesu yn amwys ac felly bod "dehongliadau" gwahanol yn digwydd; pwysleisiodd un o'r rhain, er bod arsylwadau yn agwedd allweddol ar asesu mewn dysgu sylfaen, ei bod yn pryderu y gallent fod yn oddrychol ac na allent "warantu nad yw rhagfarn [ymarferwyr] yn dylanwadu ar" asesu; eglurwyd y gallai ymddygiad dysgwyr effeithio ar sut y mae ymarferwyr yn eu gweld ac felly'n eu hasesu.

> "Bydd pobl yn dweud '[mae dysgwyr] yn fwy cadarn, maen nhw'n gallu meddwl am broblemau ac ymdrin â nhw'. Mae hynny'n anodd iawn ei fesur a gall newid bob dydd, gall newid bob awr yn dibynnu a yw'r plentyn wedi blino, a yw'r plentyn yn rhan o'r un gweithgaredd hwnnw ai peidio. Felly, mae'n eithaf anodd ei fesur." (Uwch Arweinydd)

Cyfeiriodd ambell uwch arweinydd at brofiad ymarferwyr fel ffactor pwysig sy'n galluogi asesu cynnydd dysgwyr mewn dysgu sylfaen yn briodol ac yn effeithiol. Dywedwyd bod y rhai â mwy o brofiad addysgu yn "gwybod yn iawn beth yw'r deilliannau", tra bod y rhai sy'n newydd i'r proffesiwn weithiau'n cael trafferth barnu cynnydd dysgwyr, gan ddweud "nid oes ganddynt syniad pa lefel i anelu ati oherwydd bod [yr asesu] mor amwys" (Uwch Arweinydd/Ymarferydd).

## 3.4. Canllawiau a chymorth

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gymorth i ysgolion i fynd i'r afael â Chwestiwn Ymchwil 2 ‘Beth yw'r prif ffynonellau cymorth y mae eich ysgol wedi'u defnyddio i gynllunio a gwireddu'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf?’ Darperir crynodeb o'r pwyntiau allweddol isod; yna mae trafodaeth fanylach yn dilyn hyn.

### 3.4.1. Crynodeb

Adroddwyd bod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ffynhonnell werthfawr o gymorth i tua hanner yr ysgolion. Roedd enghreifftiau o gymorth yn cynnwys dogfennau canllaw yn cysylltu llwybrau datblygiadol â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau dysgu, hyfforddiant ar draws y clwstwr, sesiynau cyfnos (ar ôl ysgol) ac annog rhannu arfer da. Yn ogystal, nododd rhai ysgolion eu bod yn gwerthfawrogi'r canllawiau Galluogi Dysgu a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn fawr. Roedd rhai ysgolion yn defnyddio’r rhain ar y cyd ag adnoddau ar Hwb er bod ambell ysgol wedi nodi pryderon ynghylch diffyg adnoddau penodol ar gyfer dysgu sylfaen.

Roedd rhai ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm nas cynhelir ar gyfer cynllunio, dylunio ac asesu. Fodd bynnag, cafwyd safbwyntiau amrywiol ar effeithiolrwydd a pherthnasedd y cwricwlwm hwn i gefnogi eu hymarfer. Dywedodd rhai ysgolion am gydweithio rhwng ysgolion, a rhannu adnoddau a syniadau, a oedd yn cefnogi hyder ymarferwyr. Roedd enghreifftiau o gymorth ychwanegol yr oedd ei angen ar ymarferwyr yn cynnwys canllawiau mwy penodol ac adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarfer ac asesu dysgu sylfaen, gan gynnwys asesiad dechreuol.

### 3.4.2. Cymorth ar lefel ranbarthol a lleol

Tynnodd tua hanner yr ysgolion yn y sampl sylw at yr arweiniad a'r gefnogaeth a gawsant gan awdurdodau lleol a/neu gonsortia rhanbarthol, er enghraifft arweinwyr dysgu sylfaen a thimau gwella ysgolion. Er nad yw rhai consortia rhanbarthol yn weithredol mwyach, mae adnoddau (megis fideos, podlediadau, a chanllawiau) wedi'u cadw ar wefannau ac wedi'u darparu drwy Hwb. Nododd rhai ysgolion fod awdurdodau lleol bellach wedi mabwysiadu darpariaeth y consortia blaenorol o gymorth ac adnoddau cwricwlwm. Cyfeiriodd ambell ysgol at gymorth gan sefydliadau eraill, er enghraifft canolfan blant leol, Hwb Cymorth Cynnar, Ymddiriedolaeth Froebel, ac ymgynghorydd allanol, ar agweddau fel datblygiad plant a dull Froebel.[troednodyn 10]

Un ffynhonnell o gymorth fu dogfennau canllaw, a rhoddodd un ysgol enghraifft o ddogfen a gynhyrchwyd gan ei chonsortiwm rhanbarthol a oedd yn ddefnyddiol wrth gynllunio

Troednodyn:
[10] Mae dull Froebel yn athroniaeth addysg blynyddoedd cynnar sy'n canolbwyntio ar y gred bod plant yn dysgu orau trwy chwarae, archwilio a chysylltu â natur ac yn trin dysgwyr fel derbynwyr gwybodaeth gweithredol yn hytrach na rhai goddefol. (Froebel Trust, 2026)

cwricwlwm sy'n briodol o ran datblygiad y plant. Nododd y ddogfen ganllaw dan sylw y cysylltiadau rhwng y llwybrau datblygiadol a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau o ddysgu ar gyfer pob Maes o'r cwricwlwm.

> “Felly o ran Cam Cynnydd 1, rydym wrthi’n gweithio gyda dogfen y mae [enw’r consortiwm rhanbarthol] wedi’i chynhyrchu, sy’n cysylltu camau datblygiad plant â’ch datganiadau ‘Gallaf’. Dyna’r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yng Ngham Cynnydd 1 i wneud yn siŵr bod ein cwricwlwm yn briodol o ran datblygiad y plant. Felly mae hynny wedi bod yn wych.” (Uwch Arweinydd)

Tynnodd ysgol arall sylw at ‘restr chwarae’ o ddulliau addysgeg dysgu sylfaen a gymerwyd o wefan consortiwm, tra bod trydydd ysgol wedi nodi dogfennau canllaw ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg ac addysgu ffoneg, hefyd o gonsortiwm rhanbarthol.

Mewn rhai achosion, ategwyd y canllawiau hyn gan adnoddau gan Hwb, ochr yn ochr â chyfarfodydd staff a sesiynau gyda’r hwyr (ar ôl ysgol) a drefnwyd gan rwydweithiau blynyddoedd cynnar lleol. I ychydig o ysgolion, roedd y rhwydweithiau hyn yn rhoi cyfle i arweinwyr dysgu sylfaen gyfarfod yn rheolaidd a rhannu syniadau, arferion da a chyfleu newidiadau a thrafod datblygiadau mewn asesu. Roedd hyn yn cynnwys rhannu mewnwelediadau o arsylwadau i gefnogi dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru.

> “Bu gweithio gyda [ein consortiwm] o gymorth i ni deimlo ein bod ni’n mynd i’r cyfeiriad cywir. Roedden ni’n teimlo bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn llethol ar y dechrau, ond fe gawson ni lawer o ganllawiau a hyfforddiant clwstwr a oedd yn ddefnyddiol ac a leihaodd y straen o wneud hynny ar ein pen ein hunain.” (Ymarferydd)

### 3.4.3. Defnyddio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn defnyddio'r trefniadau cwricwlwm ac asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir fel rhan o’r broses o gynllunio a chyflwyno eu darpariaeth. Cyfeiriodd ymarferwyr a roddodd farn gadarnhaol ar y trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir at ei iaith glir a'r manteision sy'n ymwneud ag asesiad dechreuol, cefnogi cyfathrebu, perthyn ac athroniaeth oedolion sy’n galluogi dysgu. Dywedodd nifer bach o ysgolion fod eu defnydd o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn cefnogi gwell dealltwriaeth o anghenion dysgwyr, gan gyfrannu at well ymddygiad ac ymgysylltiad.

> “[Rydym wedi] bod yn dilyn y canllawiau meithrinfa nas cynhelir a’i fframwaith asesu cysylltiedig. Ystyrir bod y canllawiau hyn yn fwy addas i’n carfan ni na’r prif gwricwlwm oherwydd eu bod yn cyd-fynd yn well â chyfnodau datblygiadol ac anghenion.” (Uwch Arweinydd)

> "Ceisiais edrych ar pam roedd ymddygiadau mor heriol, oherwydd roeddwn i'n teimlo nad oedd y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y plant. Felly, fe wnaethom ni lawer o

> waith ar sut y gallem gefnogi eu hanghenion orau drwy'r canllawiau a'r asesiadau nas cynhelir." (Uwch Arweinydd)

Fodd bynnag, nododd ambell ysgol bryderon ynghylch y canfyddiadau bod gan leoliadau nas cynhelir “ddisgwyliadau a chyd-destunau gwahanol ar gyfer dysgu”. Roeddent o’r farn bod ei ddefnydd felly’n agored i wahanol ddehongliadau. Roedd enghreifftiau a ddarparwyd gan yr ymarferwyr hyn yn cynnwys dryswch ynghylch camau cynnydd, llwybrau datblygiadol a phontio. Awgrymodd ysgol arall y gallai enw’r ddogfen fod wedi digalonni rhai ysgolion rhag ei defnyddio er bod yr addysgeg yn ‘briodol’ ar gyfer lleoliadau a gynhelir, yn ei barn hi.

### 3.4.4. Canllawiau Galluogi Dysgu

Dywedodd tua hanner yr ysgolion eu bod yn ystyried bod y canllawiau Galluogi Dysgu yn 'ddefnyddiol'. Tynnodd ambell ysgol sylw at eu pwysigrwydd fel rhan o'u prosesau ar gyfer creu amgylcheddau effeithiol ochr yn ochr â rhaglenni hyfforddi i ymarferwyr ddatblygu fel oedolion sy'n galluogi dysgu. Mae enghreifftiau eraill o'u defnydd yn cynnwys helpu ymarferwyr i ddeall a defnyddio'r derminoleg briodol, ynghyd â llywio eu ffordd o feddwl wrth ddylunio mannau awyr agored pwrpasol ac i wella byrddau stori cwricwlwm. Dywedodd ambell ysgol ei bod wedi defnyddio'r canllawiau ar y cyd ag adnoddau Hwb a dysgu proffesiynol, er enghraifft asesiad dechreuol ac ymgorffori canllawiau Galluogi Dysgu gyda phob dysgwr rhwng 3 ac 8 oed.

> “Mae’r canllawiau’n rhoi rhywfaint o gyfeiriad i ni, roedd yn fuddiol. Aethon ni drwy’r holl fodiwlau a dod o hyd i’r hyn oedd ei angen arnom ar gyfer ein hysgol, rhoddodd olygfa fwy agored i ni a sylfaen wybodaeth ehangach hefyd.” (Uwch Arweinydd/Ymarferydd)

> “Mae canllawiau Llywodraeth Cymru… oedolion sy’n galluogi dysgu ac amgylcheddau a chael y rhain i gyd-fynd wedi galluogi profiad blynyddoedd cynnar mwy llwyddiannus [i’n hysgol].” (Ymarferydd)

### 3.4.5. Mae angen canllawiau pellach

Nododd rhai ysgolion feysydd lle byddai canllawiau pellach yn ddefnyddiol. Roedd awgrymiadau penodol gan ysgolion unigol yn cynnwys canllawiau ychwanegol ar arsylwi a “gwneud y defnydd gorau ohonynt i lywio cynnydd dysgwyr”, ac roedd hyn yn gysylltiedig â gofynion dysgu proffesiynol a amlinellir yn adran 3.5.6. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys canllawiau penodol i ddysgu sylfaen ar gyfer asesiad dechreuol a’r pedwar diben, yn ogystal â sefydlu perthnasoedd ar draws rhanbarthau yng Nghymru a allai fod yn fuddiol i rannu adnoddau ac ymarfer effeithiol gydag ymarferwyr blynyddoedd cynnar eraill.

## 3.5 Dysgu proffesiynol

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gymorth i ysgolion i fynd i'r afael â Chwestiwn Ymchwil 2 ‘Pa weithgaredd dysgu proffesiynol ydych chi wedi'i gyflwyno yn yr ysgol i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf?’ Darperir crynodeb o'r pwyntiau allweddol isod; yna ceir trafodaeth fanylach yn dilyn hyn.

### 3.5.1 Crynodeb

Dywedodd rhai ysgolion eu bod wedi cael mynediad at ddysgu proffesiynol drwy eu consortia/awdurdodau lleol, yn gysylltiedig â'r canllawiau a'r adnoddau a amlinellwyd yn yr adran flaenorol. Tynnodd ysgolion eraill sylw at gyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarparwyd drwy sgyrsiau Hwb a rhwydwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, roedd y swm o ddysgu proffesiynol yn cael ei ystyried yn anghyson – dywedodd rhai ymarferwyr fod dysgu proffesiynol penodol i'r blynyddoedd cynnar yn gyfyngedig neu nad oeddent yn ymwybodol o gyfleoedd.

Mewn rhai ysgolion, felly, mae dibyniaeth ar gymorth gan gymheiriaid a deialog broffesiynol i gefnogi datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn digwydd drwy rwydweithio clwstwr, hyfforddiant mewnol, arsylwi, a rhannu arfer ac adnoddau effeithiol i fynd i'r afael â meysydd lle mae angen rhagor o gymorth.

Roedd bylchau canfyddedig mewn dysgu proffesiynol yn cynnwys darpariaeth i helpu ymarferwyr i gefnogi dysgwyr ag ADY, gwella darpariaeth dysgu awyr agored, datblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar chwarae, cefnogi addysgeg dan arweiniad dysgwyr, a gwella dulliau ymarferwyr o arsylwi. Roedd anghenion cymorth yn y dyfodol a nodwyd gan ysgolion yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o sut olwg sydd ar y Cwricwlwm i Gymru mewn ymarfer blynyddoedd cynnar o ddydd i ddydd, megis astudiaethau achos 'byd go iawn', fideos, ac enghreifftiau ar draws gwahanol gyd-destunau, yn enwedig i gefnogi hyder a chysondeb staff.

### 3.5.2 Ffynonellau dysgu proffesiynol

Dywedodd tua hanner yr ysgolion eu bod wedi cael mynediad at ddysgu proffesiynol drwy eu hawdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol. Roedd enghreifftiau o ddarpariaeth a gynigiwyd gan y cyrff hyn yn cynnwys dysgu yn yr awyr agored; hyfforddiant Ffa-la-la[troednodyn 11] ar gyfer ysgrifennu a siarad Cymraeg; cysylltu iaith â byd gwaith; a gweithdai dysgu seiliedig ar chwarae, gan gynnwys, mewn un ysgol, sesiynau ar gyfer cynorthwywyr addysgu a chynorthwywyr addysgu lefel uwch. Dywedodd rhai ysgolion hefyd eu bod yn gweithio gyda thimau ymgynghorol blynyddoedd cynnar neu dimau gwella ysgolion i nodi a chael mynediad at ddysgu proffesiynol.

---

Troednodyn:
[11] Rhaglen hyfforddi ar gyfer staff meithrinfeydd ac ysgolion cynradd yw Ffa-la-la sy'n canolbwyntio ar addysgu patrymau brawddegau Cymraeg trwy gerddoriaeth a gweithgareddau creadigol. (Ffa-la-la, 2026).

> “Mae gan dîm gwella ysgolion ein hawdurdod lleol arbenigwr perfformiad datblygiad plant, mae darpariaeth [dysgu proffesiynol] yno. Mae’n cynnal cyrsiau datblygiad plant ac mae hyn wedi helpu.” (Ymarferydd)

Tynnodd ysgolion eraill sylw at werth cyfleoedd dysgu proffesiynol a gyflwynir drwy Hwb, sgyrsiau rhwydwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru neu, mewn cwpl o ysgolion, gan ymgynghorwyr neu sefydliadau hyfforddi. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau ar, er enghraifft, y cylch monitro, gwerthuso ac adolygu, dulliau seiliedig ar ymholiadau, hyfforddiant ymarfer wedi'i lywio gan drawma i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth dysgwyr, a hunanwerthuso.

Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn defnyddio gweithgareddau dysgu proffesiynol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Roedd enghreifftiau’n cynnwys ‘cwrs amgylchedd sy’n galluogi dysgu’, y rhaglen gymorth genedlaethol ar gyfer dylunio ac asesu’r cwricwlwm, a modiwlau datblygiad plant, a ddisgrifiwyd gan un ymarferydd fel “gwirioneddol ddefnyddiol ar gyfer monitro cynnydd dysgwyr”. Nododd dwy ysgol fod y modiwlau hyn wedi’u hategu gan fynediad at adnoddau Hwb. Tynnodd ychydig o ysgolion eraill sylw at sgyrsiau rhwydwaith cenedlaethol ar alluogi dysgu fel ffynhonnell werthfawr bellach o ddysgu proffesiynol.

> “Roedd sgyrsiau [rhwydwaith cenedlaethol] Llywodraeth Cymru yn ddiddorol ac yn werthfawr. Roedd ganddyn nhw siaradwyr addysgiadol ac roedd pobl o bob cwr o dde Cymru yno, felly roedden ni’n cael barn o’r tu allan i’n hardal ni.” (Uwch Arweinydd)

> “Helpodd grŵp peilot cynllunio cwricwlwm Llywodraeth Cymru i dynnu popeth at ei gilydd, cynnal sesiynau cynllunio, a datblygu cwricwlwm yn seiliedig ar gysyniadau, a oedd yn symudiad i ffwrdd o themâu ac yn caniatáu datblygu sgiliau trosglwyddadwy. Roedden ni’n gallu ymdrin â mwy o sgiliau gyda phwrpas clir a dysgu sut i drosglwyddo sgiliau.” (Uwch Arweinydd)

### 3.5.3 Bylchau yn y ddarpariaeth dysgu proffesiynol bresennol

Serch hynny, roedd bron i hanner yr ysgolion yn ystyried bod anghysondebau a bylchau yng nghynnwys a ffocws dysgu proffesiynol ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Dywedodd rhai ysgolion nad oeddent yn gallu cael mynediad at ddysgu proffesiynol a oedd yn ymwneud yn benodol â dysgu sylfaen ac roeddent yn teimlo bod cyfleoedd yn cael eu targedu'n gyffredinol at lefelau eraill o ddarpariaeth. Dywedodd ambell ysgol nad oedd yn ymwybodol o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael, tra bod sawl un arall wedi nodi cyfyngiadau cyllidebol, a oedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddefnyddio sefydliadau hyfforddi allanol. Roedd bylchau eraill a nodwyd gan ambell ysgol o ysgolion yn cynnwys hyfforddiant perthnasol a phriodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu sy'n gweithio yn y maes dysgu sylfaen, yn ogystal ag ar gyfer ymarferwyr meithrin a derbyn.

> “Rydw i wedi gwneud hyfforddiant sydd ddim wedi bod yn berthnasol i’r blynyddoedd cynnar h.y., meithrin. Mae'n teimlo fel bod bwlch, hoffwn i wybod beth mae lleoliadau cyn-ysgol yn ei gael.” (Ymarferydd)

Tynnodd rhai ysgolion sylw at fwlch mewn dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ADY sy'n gysylltiedig â darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Dywedodd ymarferwyr yn yr ysgolion hyn eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr ag ADY, fel yr amlinellir yn adran 3.1.8, ond roeddent o'r farn bod diffyg hyfforddiant penodol i fynd i'r afael ag anghenion y dysgwyr hyn. Dywedodd un ysgol arbennig fod diffyg adnoddau cyffredinol, gan gynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol, gydag uwch arweinydd yn nodi, "mae'n rhaid i ni greu popeth drosom ein hunain neu chwilio am arbenigwyr yn Lloegr; mae'n cymryd llawer o amser".

### 3.5.4 Cydweithio rhwng ysgolion

Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill i ddatblygu sgiliau ymarferwyr a rhannu adnoddau ac ymarfer effeithiol. Dywedodd yr ysgolion hyn eu bod yn gweithio gyda chydweithwyr yn eu clystyrau ar bynciau fel datblygu dysgu awyr agored a dysgu ieithoedd cynnar. Tynnodd ymarferwyr yn yr ysgolion hyn sylw at fanteision y dull hwn i gefnogi cynllunio cwricwlwm, dysgu ac addysgu.

Nododd rhai ysgolion, pan oedd un aelod o staff yn mynychu sesiynau hyfforddi perthnasol, fod hyn yn cael ei ledaenu i staff eraill ond roedd gwahanol safbwyntiau ynghylch pa mor effeithiol oedd y dull hwn. I un ysgol, roedd y dull hwn yn cefnogi cyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng ymarferwyr, fodd bynnag, cododd ysgol arall bryderon ynghylch negeseuon cymysg.

I rai ysgolion, roedd arsylwi cydweithwyr a deialog broffesiynol yn cefnogi datblygu sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr, er enghraifft mewn datblygiad plant ac addysgeg y blynyddoedd cynnar. Dywedodd ambell ysgol ei bod yn defnyddio arbenigedd ymarferwyr ac uwch arweinwyr fel ffynhonnell ar gyfer datblygu ei gweithgaredd dysgu proffesiynol ei hun.

> “Fe wnaethom lawer o waith triawd, gan arsylwi a rhoi adborth i’n gilydd yn y dosbarth. Mae hyn wedi bod yn digwydd fwyfwy, ac fe wnaeth Estyn sylwi pa mor bell yr oeddem ni wedi datblygu o ran deialog broffesiynol yn ystod ein harolygiad interim.” (Ymarferydd)

> “Rydym wedi gorfod dod o hyd i’n dulliau dysgu ein hunain, fel gyda Jolly Phonics. Roeddem am ddiweddaru ein gwybodaeth ychydig—mae’n rhywbeth yr ydym wedi’i wneud fel ysgol, yn hytrach na rhywbeth a ddarparwyd yn allanol i ni.” (Ymarferydd)

### 3.5.6 Anghenion dysgu proffesiynol yn y dyfodol

Nododd ysgolion ystod o anghenion ac adnoddau dysgu proffesiynol pellach, yr oeddent yn ystyried y byddent yn cefnogi eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach. Tynnodd rhai ysgolion sylw at yr angen am fwy o "enghreifftiau ymarferol o sut olwg sydd ar y Cwricwlwm i Gymru mewn ymarfer blynyddoedd cynnar o ddydd i ddydd". Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys astudiaethau achos go iawn, fideos ac enghreifftiau ar draws gwahanol gyd-destunau, er enghraifft dysgu seiliedig ar chwarae, a map o ddysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr dysgu sylfaen. Roedd yr ysgolion hyn o’r farn y gallai hyn fod o gymorth i hyder y staff ac i sicrhau cysondeb.

Tynnodd ambell ysgol sylw at yr angen am fwy o ganllawiau a gweithgaredd dysgu proffesiynol cysylltiedig ar gyfer ymarferwyr – yn enwedig cynorthwywyr addysgu – i asesu cynnydd dysgwyr drwy arsylwi. Nododd yr ysgolion hyn y byddai hynny o gymorth pellach i ddatblygu'r dulliau deialog proffesiynol i gefnogi sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr a amlinellwyd yn yr adran flaenorol. Nododd ambell o ysgolion hefyd fwlch mewn dysgu proffesiynol ac adnoddau'n ymwneud â dysgwyr ag ADY ac ar gyfer addysgu sgiliau iaith.

> "…mae pobl yn dibynnu ar ysgolion am sgiliau iaith sylfaenol. Doedden ni byth yn disgwyl gorfod dysgu plant sut i siarad, [mae'n rhaid i ni] feddwl am ffyrdd creadigol o ddysgu iaith." (Ymarferydd)

> "Yr hyn rwy'n credu fyddai'n fuddiol iawn i athrawon a staff cymorth y cyfnod sylfaen fyddai hyfforddiant mewn meysydd fel Makaton, cyfathrebu, dulliau chwilfrydedd, ac 'Amser Bwced'. O ystyried nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n dod i'n hysgolion, dyma'r mathau o gyfleoedd y mae angen eu gwneud yn fwy hygyrch i ni." (Uwch Arweinydd)

# 4 Casgliadau

Nod yr ymchwil oedd darparu atebion archwiliadol i ddau gwestiwn ymchwil cyffredinol mewn perthynas â dysgu sylfaen mewn ysgolion ledled Cymru.

1. **Cwestiwn Ymchwil 1:** Sut y mae ysgolion yn cynllunio ac yn gwireddu cwricwlwm sy'n addas yn addysgegol ac yn ddatblygiadol ar gyfer dysgu sylfaen sy'n cefnogi dysgwyr mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru?
2. **Cwestiwn Ymchwil 2:** Sut y mae ysgolion yn defnyddio canllawiau a dysgu proffesiynol i sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir ganddynt yn addas yn addysgegol ac yn ddatblygiadol ar gyfer dysgu sylfaen - yn unol â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru?

## 4.1. Casgliadau'n ymwneud â Chwestiwn Ymchwil 1

### 4.1.1. Dylunio a chynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen

Ar draws y sampl o ysgolion a gyfrannodd at yr astudiaeth ansoddol hon, disgrifiwyd cynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen fel proses sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, wedi'i gyd-destunoli ac sy'n ymatebol i anghenion datblygiadol. Defnyddiwyd asesiadau dechreuol gan ysgolion i sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr ieuengaf wedi'i lywio gan ddealltwriaeth o fannau cychwyn datblygiadol dysgwyr. Dywedodd ysgolion hefyd fod addysgu, dysgu a chynllunio'r cwricwlwm yn seiliedig ar gylch parhaus o arsylwi a barn broffesiynol, gan adlewyrchu disgwyliadau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Roedd profiadau'n seiliedig ar le ac ymgysylltu â'r gymuned leol yn aml yn rhan o'r gwaith o gynllunio cwricwlwm ac ymholiadau yn yr ystafell ddosbarth, gyda llawer o ysgolion yn tynnu sylw at werth dysgu dilys sydd wedi'i wreiddio ym mhrofiadau plant ac yn gysylltiedig â'r cysyniad o 'gynefin'.

Disgrifiodd llawer o ymarferwyr y Cwricwlwm i Gymru fel esblygiad o arferion a sefydlwyd o dan gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen blaenorol yn hytrach na newid radical. Dywedodd nifer sylweddol eu bod wedi defnyddio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, gan werthfawrogi'n benodol yr eglurder a ddarperir wrth gefnogi cynllunio sy'n gysylltiedig â'r llwybrau datblygiadol. Mewn rhai ysgolion, roedd elfennau o'r cwricwlwm nas cynhelir wedi'u hintegreiddio'n benodol i ddulliau cynllunio ar gyfer dosbarthiadau meithrin a derbyn.

Mewn llawer o ysgolion, dywedodd ymarferwyr eu bod yn cynllunio'r cwricwlwm gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau i gefnogi datblygiad dysgwyr, gan amlygu'n aml ffocws ar sgiliau llythrennedd a rhifedd. Nid oedd ymarferwyr yn ystyried bod dulliau a oedd yn cynnwys elfennau o addysgu â ffocws yn gwyro oddi wrth egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ond yn hytrach yn addasiad a fwriadwyd i gefnogi cynnydd, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 1 a 2.

Gallai hyn awgrymu bod rhai uwch arweinwyr ac athrawon o'r farn nad yw dull dysgu sy'n seiliedig ar chwarae ac sy'n briodol yn addysgegol ac yn ddatblygiadol o bosibl yn cefnogi datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y ffyrdd y maent yn eu disgwyl. Yn y cyd-destun hwn, gallai'r cyfeiriadau niferus at y ffaith bod dysgwyr 3–8 oed 'heb gyrraedd lle y dylent fod' ddangos diffyg dealltwriaeth o egwyddor ganolog Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sy'n pwysleisio y dylai cymorth ar gyfer cynnydd gydnabod y ffaith bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ar gyflymder gwahanol ac na ddylai fod yn seiliedig ar ddeilliannau sydd wedi'u cyfyngu gan amser.

Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd ymarferwyr yn aml at heriau o ran sicrhau dilyniant effeithiol i Flwyddyn 3, lle yr oedd rhai yn dal i ystyried bod newid tuag at "ddysgu mwy ffurfiol". Mae'r ffaith bod Blwyddyn 3 yn dal i gael ei ystyried yn "bwynt pontio" yn awgrymu bod angen cefnogaeth barhaus i helpu ysgolion i sicrhau continwwm o ran y dysgu drwy sicrhau bod addysgeg yn parhau i gefnogi cynnydd mewn ffyrdd sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr.

Un ffactor cyson a oedd yn dylanwadu ar benderfyniadau'n ymwneud â'r cwricwlwm oedd y cynnydd canfyddedig yng nghymhlethdod anghenion dysgwyr. Dywedodd ymarferwyr eu bod yn gweld niferoedd cynyddol o ddysgwyr ag ADY ac anghenion datblygiadol ehangach pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, gan arwain at addasiadau mewn amgylcheddau dysgu, ymyriadau wedi'u targedu a darpariaeth fwy gwahaniaethol. Ar yr un pryd, tynnodd ysgolion sylw at gyfyngiadau'n ymwneud â staffio a chyllidebau, a oedd yn eu barn nhw yn cyfyngu ar eu gallu i wireddu darpariaeth a oedd yn llawn ymatebol i ddatblygiad dysgwyr.

### 4.1.2. Addysgeg

Roedd y dulliau addysgeg a adroddwyd gan ysgolion yn yr astudiaeth ansoddol hon yn ymddangos yn gyson ar y cyfan â bwriadau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, a'r canllawiau Galluogi Dysgu yn benodol. Dywedodd pob ysgol fod addysgeg dysgu sylfaen wedi'i hangori mewn chwarae a dysgu profiadol, gyda llawer o ymarferwyr yn nodi bod dulliau o'r fath wedi dod yn cael eu cynllunio fwyfwy ac yn dod yn fwy pwrpasol. Roedd chwarae yn parhau i gael ei ystyried fel y prif gyfrwng ar gyfer datblygu dealltwriaeth gysyniadol a sgiliau trawsgwricwlaidd dysgwyr. Disgrifiodd ymarferwyr ymgorffori iaith, cyfathrebu, rhifedd a datblygiad corfforol drwy ddulliau sy'n seiliedig ar chwarae.

Adroddwyd yn eang bod dysgu yn yr awyr agored yn ganolog i addysgeg dysgu sylfaen. Roedd ysgolion yn ei werthfawrogi am ei gyfraniad at ddatblygiad corfforol, chwilfrydedd a lles, a chynlluniodd llawer ar gyfer symud yn rhydd rhwng mannau dan do a mannau awyr agored. Roedd sesiynau ysgol goedwig yn rhan annatod o'r cwricwlwm mewn sawl ysgol, gan ddarparu cyfleoedd i gymryd risgiau, archwilio a datrys problemau.

Roedd arsylwi yn rhan greiddiol o ymarfer addysgeg. Defnyddiodd ymarferwyr arsylwadau i addasu darpariaeth ar gyfer plant unigol, gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pryd i ymyrryd neu gamu'n ôl, ac ymgysylltu mewn myfyrio cydweithredol gyda chydweithwyr. Ystyriwyd hefyd fod arsylwi yn hanfodol ar gyfer nodi rhwystrau'n gynnar a chefnogi dulliau cynhwysol, yn enwedig mewn cyd-destunau lle yr adroddwyd bod plant yn dechrau yn yr ysgol gydag ystod ehangach o anghenion datblygiadol.

Roedd newidiadau i addysgeg ar draws y sampl yn cynnwys mwy o ddefnydd o chwarae heb ymyrraeth, cynllunio ymatebol, a gostyngiad yn y defnydd o lyfrau ymarferion yn y Meithrin a Blwyddyn 1, gyda ffurfiau mwy ystyrlon o gofnodi yn cael eu defnyddio yn lle hynny.

Yn aml, disgrifiodd ymarferwyr newid yn eu rôl o gyflwyno cynnwys i alluogi dysgu. Darparodd y canllawiau Galluogi Dysgu iaith gyffredin ynghylch oedolion sy'n galluogi dysgu, amgylcheddau effeithiol a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb, gan atgyfnerthu'r newid hwn. Roedd cydweithio agos rhwng athrawon, CALUau a CAau yn gyffredin, gyda rhai CALUau yn ysgwyddo dyletswyddau arwain sylweddol mewn darpariaeth feithrin, er bod hyn yn amrywio yn ôl cyd-destun yr ysgol. Er bod CALUau a CAau yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi darpariaeth dysgu sylfaen o ansawdd uchel, disgwylir iddynt weithio dan gyfarwyddyd ac arweiniad athro cymwys. Mae adroddiadau staff yn arwain dosbarthiadau meithrin yn annibynnol yn tynnu sylw at arfer sydd y tu allan i'r model bwriadedig, ac efallai y bydd angen eglurder pellach ynghylch y disgwyliadau.

### 4.1.3 Cynnydd ac asesu

Datgelodd tystiolaeth o bob rhan o'r sampl o ysgolion mewn perthynas ag arferion asesu symudiad tuag at ddulliau ffurfiannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mewn rhai ysgolion, roedd dulliau asesu wedi'u haddasu i gryfhau cydlyniant â dysgu sylfaen o dan y Cwricwlwm i Gymru. Roedd yr addasiadau hyn yn cynnwys defnyddio canllawiau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ac ymgorffori offer asesu allanol dethol, gyda gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, dulliau addysgeg, a dylunio profiadau ac amgylcheddau dysgu.

Cynhaliwyd asesiadau dechreuol yn rheolaidd o fewn yr wythnosau cyntaf o ddechrau'r ysgol ac fe'u defnyddiwyd yn ffurfiannol i lywio'r addysgu, y cynllunio ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Mewn sawl achos, cafodd yr asesiad cychwynnol hwn ei lywio gan ganllawiau ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir, a oedd yn cefnogi rhoi sylw i lwybrau datblygu ac yn helpu i sefydlu dealltwriaeth holistaidd o ddatblygiad ac anghenion pob dysgwr. Nododd rhai ymarferwyr nad oedd y dulliau o asesu ar ddechrau'r ysgol wedi newid rhyw lawer ers cwricwlwm blaenorol y Cyfnod Sylfaen, a allai egluro pam bod yr hen asesiad sylfaenol yn parhau i gael ei ddefnyddio mewn nifer o ysgolion-arfer y mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi symud oddi wrtho.

Arsylwi oedd y dull asesu canolog yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn. Ym Mlynyddoedd 1 a 2, fodd bynnag, dywedodd rhai ysgolion am symudiad tuag at asesiadau mwy ffurfiol i ddangos tystiolaeth o ddysgu, megis llyfrau gwaith neu ddefnyddio offer asesu, a ddisgrifir weithiau fel dulliau "traddodiadol".

Mewn rhai ysgolion, roedd yn ymddangos bod symudiad tuag at asesu mwy ffurfiol wedi'i yrru gan ganfyddiad bod angen i ddysgwyr fod yn 'barod' ar gyfer blynyddoedd diweddarach, ac ystyriwyd bod y dulliau hyn yn darparu 'data' cliriach na thystiolaeth o ddulliau arsylwadol, seiliedig ar chwarae neu ansoddol. Mae hyn yn dangos bod rhai dulliau'n parhau sy'n rhan o ymarfer blaenorol a ddefnyddiwyd i 'olrhain' cynnydd, nad ydynt

efallai'n cyd-fynd â chysyniad Cwricwlwm i Gymru o barhad dysgu nad yw'n cynnwys camau na chyfnodau.

Mynegodd ymarferwyr safbwyntiau cymysg ar asesu cynnydd mewn dysgu sylfaen. Er bod llawer o ymarferwyr yn gwerthfawrogi tystiolaeth ansoddol, yn seiliedig ar arsylwadau, roedd eraill yn gweld disgwyliad parhaus am ddata meintiol, gan greu tensiwn rhwng egwyddorion asesu sy'n briodol i ddatblygiad ac arferion sy'n seiliedig ar ddata. Dywedodd rhai uwch arweinwyr fod staff llai profiadol yn arbennig o ansicr wrth lunio barn am gynnydd heb feincnodau traddodiadol, gan nodi y gallai fod angen rhagor o gymorth i gryfhau hyder yn eu barn broffesiynol a'u dealltwriaeth o ddatblygiad a chynnydd plant er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru.

Ochr yn ochr ag arsylwadau, defnyddiodd ysgolion offer asesu wedi'u targedu (er enghraifft, ar gyfer ffoneg neu iaith a lleferydd) i gefnogi anghenion penodol. Yn aml, pryderon ymarferwyr ynghylch cyfradd datblygiad mewn meysydd fel cyfathrebu, sgiliau motor manwl a rhuglder rhifau oedd yn sbarduno'r penderfyniadau hyn.

Mae'n werth nodi, drwy gydol y gwaith maes, bod ymarferwyr wedi cyfeirio'n aml at "safonau", "mesurau", "meincnodau" ac "olrhain" dysgu. Mae'r defnydd o derminoleg o'r fath yn awgrymu nad yw meddwl am gynnydd o bosibl yn gyson â chwricwlwm sy'n seiliedig ar brosesau a'r weledigaeth a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru sy'n canolbwyntio ar ddysgu pwrpasol a dilys sy'n berthnasol i ddatblygiad y dysgwr.

## 4.2. Casgliadau sy'n ymwneud â Chwestiwn Ymchwil 2

### 4.2.1. Canllawiau a chefnogaeth

Nododd ysgolion yn y sampl sawl prif ffynhonnell gymorth a ddefnyddiwyd i lywio dyluniad a chynllunio dysgu sylfaen. Adroddwyd bod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ffynonellau pwysig o arweiniad, tra bod rhai ysgolion yn gwerthfawrogi canllawiau Galluogi Dysgu Llywodraeth Cymru, a oedd weithiau'n cael eu hategu gan adnoddau ar Hwb a chan sefydliadau eraill sy'n cefnogi datblygiad plant.

Mae tystiolaeth o ysgolion yn dangos bod yr adnoddau hyn yn cael eu hystyried yn werthfawr ac wedi cyfrannu at eu dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n gyd-destunol, yn unol â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru. Mewn rhai achosion, ymddengys fod ysgolion wedi defnyddio canllawiau o amrywiaeth o ffynonellau ac wedi cysylltu hyn â chydweithio ag ysgolion eraill, drwy rannu'r adnoddau a'r syniadau hyn. Adroddir bod hyn wedi cefnogi hyder a sgiliau ymarferwyr ac yn darparu enghraifft o ymarfer effeithiol wrth gynllunio a gwireddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar.

Er bod rhai ysgolion yn defnyddio'r cwricwlwm nas cynhelir ar gyfer cynllunio, dylunio ac asesu, roedd safbwyntiau amrywiol ar effeithiolrwydd a pherthnasedd y dull hwn. Roedd rhai ysgolion yn gwerthfawrogi eglurder yr iaith wrth gefnogi cynllunio sy'n gysylltiedig â llwybrau datblygiadol a sut mae'n cyd-fynd ag anghenion dysgwyr sylfaen. Mewn ambell ysgol, fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch yr hyn yr oedd ymarferwyr yn ei ystyried fel

gwahaniaethau mewn cyd-destun a disgwyliadau ar gyfer dysgu o fewn y sector nas cynhelir.

Mynegodd rhai ysgolion bryderon ynghylch y diffyg canfyddedig o adnoddau penodol ar gyfer dysgu sylfaen. Mae hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau tebyg a fynegwyd ar ddiffyg gweithgaredd dysgu proffesiynol penodol ar gyfer dysgu sylfaen ac yn dangos yr angen i dargedu canllawiau (a dysgu proffesiynol) at y cyd-destunau, addysgeg a dulliau penodol o fewn dysgu sylfaen.

Gyda hyn mewn golwg, y themâu cyffredin a amlygwyd gan ymarferwyr ac uwch arweinwyr oedd yr angen am ganllawiau pellach i gefnogi cysondeb, parhad a hyder wrth gynllunio a gwireddu'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr iau a chefnogi datblygiad dysgwyr.

### 4.2.2. Dysgu proffesiynol

Nododd tua hanner yr ysgolion yn y sampl eu bod wedi cael mynediad at adnoddau dysgu proffesiynol drwy eu consortia rhanbarthol neu awdurdodau lleol, a oedd yn aml yn gysylltiedig â'r canllawiau a'r adnoddau a nodir uchod yn adran 4.2.1. Yn yr un modd, defnyddiodd rhai ysgolion gyfleoedd dysgu proffesiynol a gyflwynwyd drwy sgyrsiau rhwydwaith cenedlaethol ac adnoddau ar Hwb. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan ganolog yn y ddarpariaeth gweithgaredd dysgu proffesiynol. Roedd sesiynau ac adnoddau ar bynciau fel creu amgylcheddau dysgu effeithiol, asesu a datblygiad plant yn cael eu gwerthfawrogi gan yr ysgolion hyn o ran cefnogi’r gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm.

Fodd bynnag, nid oedd rhai ysgolion yn ymwybodol o'r cyfleoedd a oedd ar gael, tra bod eraill wedi codi pryderon ynghylch diffyg canfyddedig o ddysgu proffesiynol penodol i ddysgu sylfaen. Gyda'r cynnydd a gofnodwyd yn nifer y dysgwyr ag ADY, tynnodd rhai ysgolion sylw at fylchau mewn gwybodaeth a sgiliau a diffyg gweithgaredd dysgu proffesiynol i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr. Unwaith eto, roedd pryderon nad oedd y cyfleoedd hyfforddi a oedd yn bodoli i gefnogi dysgwyr ag ADY yn cynnwys y ffocws na'r cynnwys dysgu sylfaen penodol gofynnol i gefnogi'r addasiadau sydd eu hangen mewn amgylcheddau dysgu ac ymyriadau wedi'u targedu, yn ogystal â'r angen am wahaniaethu mwy o ran darpariaeth.

Defnyddiodd rhai ysgolion gefnogaeth gan gymheiriaid a deialog broffesiynol i wella’r cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarparwyd drwy’r partneriaid a amlinellir uchod neu i fynd i’r afael â bylchau canfyddedig yn y ddarpariaeth. Digwyddodd hyn drwy rwydweithio rhwng ysgolion neu glwstwr, lledaenu gwybodaeth, hyfforddiant ac arsylwi mewnol, a rhannu arferion ac adnoddau effeithiol i fynd i’r afael â meysydd lle’r oedd angen rhagor o gefnogaeth. Mae’r gweithgareddau cydweithredol hyn rhwng ysgolion yn dangos eu potensial i weithredu fel sefydliadau dysgu.

Roedd bylchau canfyddedig yn y ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn cynnwys ADY, dysgu yn yr awyr agored, datblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar chwarae, a newid dysgu yn y dosbarth derbyn i gael ei arwain yn fwy gan y dysgwr. Ystyriwyd bod gweithgaredd dysgu

proffesiynol pellach a chanllawiau yn ymwneud ag arsylwi yn allweddol i gefnogi datblygiad sgiliau ymarferwyr, er enghraifft wrth alluogi CAau i asesu cynnydd dysgwyr ac i ddatblygu'r dulliau ar gyfer deialog broffesiynol ymhellach.

Fel gydag anghenion canllawiau yn y dyfodol, roedd y themâu allweddol ar gyfer cymorth dysgu proffesiynol yn y dyfodol yn gysylltiedig â hyder, sgiliau a chysondeb staff wrth gyflwyno dysgu sylfaen sy'n briodol yn addysgegol ac yn ddatblygiadol. Mae hyn yn dangos, er y gall deialog a rhwydweithio proffesiynol gefnogi cynnydd ysgolion, y dylai dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, sy'n benodol i ddysgu sylfaen, hefyd fod yn alluogwr pwysig ar gyfer dull cydlynol a gwybodus o weithredu'r cwricwlwm, yn unol â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru.

### 4.3 Meysydd i'w hystyried

**i. Ymgorffori llwybrau datblygiadol fel rhan o brosesau cynllunio cwricwlwm cydlynol**

Mae tystiolaeth yn dangos bod ysgolion yn aml yn addasu'r broses o gynllunio'r cwricwlwm i adlewyrchu mannau cychwyn datblygiadol dysgwyr. Serch hynny, mae amrywiad o hyd yn y ffordd y mae ysgolion yn ymgorffori ac yn dehongli llwybrau datblygiadol. Gellid rhoi ystyriaeth bellach i sut y gellir cefnogi ysgolion i gynllunio ar gyfer dysgu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, sy'n ymatebol i ddatblygiad ac sy'n briodol o ran addysgeg o 3–16 oed, gan sicrhau cyfatebiaeth â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

**ii. Egluro'r disgwyliadau ynghylch addysgeg sy'n addas yn ddatblygiadol**

Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, roedd rhai ysgolion yn parhau i ystyried bod newid tuag at yr hyn a ddisgrifiwyd fel dysgu mwy 'ffurfiol' ym Mlwyddyn 3, a oedd yn dylanwadu ar ymarfer ac addysgeg, yn enwedig ym Mlwyddyn 2. Efallai y bydd angen cefnogi ysgolion i ddatblygu dulliau addysgeg sy'n sicrhau parhad yn eu darpariaeth addysg gynradd, gan helpu i symud ymlaen o ganfyddiadau neu ddisgwyliadau o 'barodrwydd' dysgwyr ar gyfer pwyntiau pontio nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

**iii. Cefnogi asesu mewn dysgu sylfaen**

Dywedodd ysgolion fod ansicrwydd ynghylch sut i ddangos tystiolaeth o gynnydd yn absenoldeb meincnodau. Nodwyd hefyd rywfaint o densiwn rhwng asesu drwy arsylwi a disgwyliadau canfyddedig ar gyfer data meintiol yn ymwneud â chynnydd (a 'safonau'). Gallai canllawiau ac enghreifftiau ychwanegol gefnogi mwy o gysondeb wrth ddefnyddio'r pum llwybr datblygiadol fel rhan o ddulliau holistaidd o asesu cynnydd dysgwyr.

**iv. Ymateb i niferoedd cynyddol o ddysgwyr mewn dysgu sylfaen sydd angen cymorth ychwanegol**

Dywedodd llawer o ysgolion eu bod yn gweld niferoedd cynyddol o ddysgwyr ag anghenion datblygiadol y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, ochr yn ochr â chyfyngiadau staffio a chyllidebol. Mae angen meddwl ymhellach am sut y gall cymorth cenedlaethol a

rhanbarthol helpu ysgolion i ddylunio amgylcheddau, cwricwla a dulliau addysgeg sy'n parhau i fod yn gynhwysol ac yn ymatebol i ddatblygiad y dysgwyr.

### v. Gwella mynediad at ddysgu a chymorth proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddysgu sylfaen

Dywedodd ysgolion fod anghysondebau yn argaeledd a pherthnasedd gweithgaredd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar ddysgu sylfaen, yn enwedig mewn meysydd fel datblygiad plant, cefnogi dysgwyr ag ADY, asesu sy'n seiliedig ar arsylwi, ac addysgeg sy'n seiliedig ar chwarae. Gallai dysgu proffesiynol wedi'i deilwra a'i gyhoeddi'n dda helpu i gefnogi hyder ymarferwyr a barn broffesiynol, a hyrwyddo mwy o gysondeb ledled Cymru. Gallai hyn hefyd fod yn ffocws ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion fel rhan o strategaethau gwella ysgolion cydweithredol.

## Cyfeiriadau

Braun, V., a Clarke, V. (2022). Thematic analysis: A practical guide. Llundain: SAGE Publications Ltd.

Child Poverty Action Group. (2026). Effects of poverty. (Cyrchwyd 12/02/2026).

Donaldson, G. (2015). Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Estyn. (2024). Effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Ffa-la-la. (2026). Dysgu Cymraeg gyda Chaneuon, Fideos a Gwersi Parod. (Cyrchwyd 17/02/2026).

Froebel Trust. (2026). Froebel Trust. (Cyrchwyd 17/02/2026).

GL Assessment. (2026). WellComm. (Cyrchwyd 17/02/2026).

Hachette Learning. (2026). Salford Sentence Reading and Comprehension Test. (Cyrchwyd 17/02/2026).

Llywodraeth Cymru. (2022a). Cwestiynau cyffredin: Cwricwlwm i Gymru: dysgu sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. (Cyrchwyd 12/02/2026).

Llywodraeth Cymru. (2022b). Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm. (Cyrchwyd 12/02/2026).

Llywodraeth Cymru. (2023). Galluogi Dysgu. (Cyrchwyd 12/02/2026).

Llywodraeth Cymru. (2024a). Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. (Cyrchwyd 12/02/2026).

Llywodraeth Cymru. (2024b). Adroddiad ar Sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol - Galluogi Dysgu. (Cyrchwyd 12/02/2026).

Llywodraeth Cymru. (2024c). Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu. (Cyrchwyd 12/02/2026).

Llywodraeth Cymru. (2026). Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol (disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd). (Cyrchwyd 13/02/2026).

OECD. (2014). Improving Schools in Wales (PDF): An OECD Perspective.

Structural Learning. (2026). Floor Books in EYFS: Document Learning Together. (Cyrchwyd 17/02/2026).

Tric a Chlic. (2026). Tric a Chlic. (Cyrchwyd 17/02/2026).

Twinkl. (2026). Twinkl: About us. (Cyrchwyd 17/02/2026).

# Atodiad A: Canllaw holi

Bydd cwestiynau wedi'u labelu (UA) yn cael eu gofyn mewn trafodaethau gydag uwch arweinwyr yn unig. Bydd cwestiynau wedi'u labelu (Y) yn cael eu gofyn mewn trafodaethau gydag ymarferwyr yn unig. Bydd cwestiynau wedi'u labelu (UA&Y) yn cael eu gofyn mewn trafodaethau gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr.

Bydd cwestiynau mewn **ffont bold** yn cael eu codi yn ystod trafodaethau cychwynnol gydag uwch arweinwyr ac yn cael eu harchwilio'n llawnach yn ystod ail drafodaethau gydag ysgolion/yn ystod ymweliadau, gan gynnwys cwestiynau atodol pellach a mwy manwl.

Cyffredinol

- **(UA&Y) Mae gennym ddiddordeb yn eich barn gyffredinol ar y canllawiau a ddarperir i ysgolion i gefnogi a llywio dysgu sylfaen. Beth yw eich barn chi am ganllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y maes hwn o'r cwricwlwm?**
    - A oes unrhyw beth arbennig o ddefnyddiol ar gyfer dysgu sylfaen?
    - A yw'r canllawiau yn ddigon rhagnodol neu ddim yn ddigon rhagnodol?
    - Ydych chi'n glir am yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion mewn perthynas â chefnogi dysgu sylfaen?

Cynllunio a dylunio (Cwestiwn Ymchwil 1)

- **(UA) Allwch chi roi trosolwg o sut mae cynllunio a dylunio cwricwlwm wedi newid yn eich ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi eich dysgwyr ieuengaf?**
- (UA&Y) Sut mae'r dull o gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf wedi datblygu dros amser?
    - Ydych chi wedi mireinio dulliau ac os felly, beth sydd wedi gyrru unrhyw newidiadau rydych chi wedi'u gwneud?
- (UA&Y) Allech chi ddisgrifio sut wnaethoch chi gynllunio eich cwricwlwm?
    - A yw dyluniad y cwricwlwm yn cael ei adolygu a'i ddiwygio, os felly, sut ydych chi'n gwneud hyn? Unrhyw enghreifftiau o hyn yn digwydd?
    - Beth yw rôl athrawon wrth hwyluso neu gyfryngu dull o gynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth ymgysylltu â'ch dysgwyr ieuengaf?
    - Allwch chi roi enghreifftiau o gamau rydych chi wedi'u cymryd i sicrhau bod y cwricwlwm yn ymateb i gymhellion, dyheadau a diddordebau eich dysgwyr ieuengaf?

- (UA&Y) Sut ydych chi wedi cynllunio eich cwricwlwm ysgol i sicrhau bod y nodweddion canlynol yn rhan o addysgu a dysgu i'ch dysgwyr ieuengaf?
    - Chwarae a dysgu yn seiliedig ar chwarae
    - Bod yn yr awyr agored
    - Arsylwi
    - Dysgu dilys a phwrpasol?
- (UA&Y) Beth ydych chi'n teimlo sy'n gweithio'n dda?
    - Pa heriau ydych chi wedi'u hwynebu?
    - I ba raddau y mae amgylchedd/gofod/cyfleusterau eich ysgol yn dylanwadu ar hyn?
    - I ba raddau y mae hyn yn cael ei ddylanwadu gan eich lleoliad/cymuned ysgol?
- **(UA) A oes ffocws ar ddysgu sylfaen fel rhan o weithgarwch gwella ysgol y mae eich ysgol yn ymwneud ag ef? Os felly, rhowch ragor o fanylion.**
- **(UA) A yw dysgu sylfaen yn flaenoriaeth yn eich Cynllun Datblygu Ysgol? Os felly, rhowch ragor o fanylion.**
- **(UA) Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn nodi y dylai ysgolion roi ar waith egwyddorion datblygiad y plentyn pan fyddant yn cynllunio, dylunio a gweithredu eu cwricwlwm. Sut ydych chi wedi mynd i'r afael â hyn yn eich ysgol?**
    - (UA&Y) Ydych chi'n gyfarwydd â'r llwybrau datblygiadol a nodir yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru? Mae'r canllawiau yn nodi pum llwybr datblygu, sef: perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles.
- Os ydych, sut ydych chi wedi defnyddio'r llwybrau datblygiadol i lywio cynllunio a dylunio cwricwlwm? Ydych chi'n teimlo eu bod yn werthfawr/defnyddiol wrth gefnogi cynllunio a dylunio cwricwlwm? Rhowch resymau neu enghreifftiau.
    - A yw dealltwriaeth athrawon o lwybrau datblygiadol wedi gwneud gwahaniaeth i ymarfer? Os felly, sut?
    - (UA) Sut ydych chi'n sicrhau bod gan ymarferwyr ar draws yr ysgol wybodaeth a dealltwriaeth briodol o ddatblygiad y plentyn i lywio dylunio a gwireddu’r cwricwlwm?

Addysgeg (Cwestiwn Ymchwil 1)

- **(UA&Y) Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r dulliau addysgegol a fabwysiadwyd yn eich ysgol i gefnogi eich dysgwyr ieuengaf, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion datblygiadol ychwanegol?**
    - **Os felly, beth sydd wedi newid a beth sydd wedi gyrru unrhyw newidiadau i'ch ymarfer? Fframwaith Cwricwlwm i Gymru? Canllawiau a dderbyniwyd? Dysgu proffesiynol?**
- (UA&Y) Sut fyddech chi'n disgrifio'r gwahaniaethau allweddol rhwng yr addysgeg rydych chi'n ei defnyddio nawr a'r dulliau o dan y cwricwlwm blaenorol?
- (UA&Y) Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw effeithiau ar ddatblygiad dysgwyr rydych chi'n teimlo y gellir eu priodoli i'r dulliau addysgegol rydych chi'n eu mabwysiadu?
    - A oes addysgeg neu arferion penodol sy'n profi'n fwy effeithiol, gan gynnwys i ddysgwyr ag anghenion datblygiadol ychwanegol? Rhowch resymau neu enghreifftiau.
    - A oes unrhyw addysgeg neu arferion penodol rydych chi wedi symud i ffwrdd ohonynt ers gwireddu Cwricwlwm i Gymru?

Defnyddio asesiad (asesiadau dechreuol ac asesiadau parhaus) (Cwestiwn Ymchwil 1)

- **(UA&Y) Allech chi esbonio sut rydych chi'n cynllunio ac yn cynnal asesiadau dechreuol gyda dysgwyr pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol am y tro cyntaf?**
    - **Pa ddulliau neu offer ydych chi'n eu defnyddio i gynnal yr asesiadau dechreuol hyn?**
- (UA&Y) Sut mae gwybodaeth o asesiadau dechreuol yn cael ei defnyddio i lywio cynllunio a dylunio cwricwlwm?
- (UA&Y) Sut mae'r canfyddiadau/data/arsylwadau o asesiadau dechreuol yn cael eu defnyddio i lywio addysgeg?
- (UA&Y) Sut mae asesu ac arsylwadau parhaus yn cael eu defnyddio i lywio cynllunio a gwireddu cwricwlwm?
- (UA&Y) Sut mae'r canfyddiadau/data/arsylwadau o asesiadau parhaus yn cael eu defnyddio i lywio addysgeg?

Ymgysylltu â lleoliadau meithrin nas cynhelir (Cwestiwn Ymchwil 1)

- **(UA) Sut mae'r ysgol yn ymgysylltu â lleoliadau sydd wedi cefnogi dysgwyr o'r blaen i gynllunio ar gyfer a sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol ar waith?**

- (UA&Y) Pa rannu gwybodaeth sy'n digwydd rhwng yr ysgol a lleoliadau sydd wedi cefnogi dysgwyr o'r blaen?
    - Pa fath o wybodaeth sy'n cael ei rhannu?
    - Sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio ac ymarfer?
- (UA&Y) Sut mae eich ymarfer ymgysylltu/cydweithio yn cefnogi pontio effeithiol i ddysgwyr yn eich ysgol?
    - Beth yw'r rhwystrau, os o gwbl, i hyn?

<u>Cydweithio rhwng ysgolion a chydweithio ysgol i'r ysgol (Cwestiwn Ymchwil 1)</u>

- **(UA&Y) A yw'ch ysgol wedi bod yn rhan o unrhyw waith o ysgol-i-ysgol neu leoliad-i-ysgol i gefnogi cynllunio a gweithredu cwricwlwm ar gyfer dysgu sylfaen?**
    - **Os felly, eglurwch beth oedd y gwaith o ysgol-i-ysgol/lleoliad-i-ysgol yn ei gynnwys?**
    - Pa agweddau ar addysgeg ac ymarfer dysgu sylfaen y canolbwyntiodd arnynt?
    - Pa aelodau o staff oedd a gymerodd rhan?
- (UA&Y) Pa effaith gafodd y cydweithio?
    - A arweiniodd at unrhyw newidiadau mewn ymarfer cynllunio neu addysgu yn yr ysgol? Rhowch resymau neu enghreifftiau os gwelwch yn dda.
    - Beth yw'r rhwystrau, os o gwbl, i hyn?

<u>Canllawiau (Cwestiwn Ymchwil 2)</u>

- **(UA) Beth yw'r prif ffynonellau cymorth y mae eich ysgol wedi'u defnyddio i lywio cynllunio a gwireddu'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf?**
- (UA) Pa un o'r canllawiau a/neu adnoddau canlynol rydych chi neu staff yn eich ysgol wedi'u defnyddio?
    - Galluogi Dysgu
    - Unrhyw adnoddau eraill (gan gynnwys ar Hwb); os oedden nhw'n ddefnyddiol, sut oedden nhw'n ddefnyddiol?
- (UA&Y) (Ar gyfer pob un sy'n berthnasol) Yn eich profiad chi, a oedd y canllawiau o ansawdd da ac yn canolbwyntio ar y meysydd mwyaf perthnasol?

- Pa mor effeithiol yw'r canllawiau ysgrifenedig wrth gefnogi eich cynllunio a'ch ymarfer?

- (UA) A yw'r ysgol wedi defnyddio unrhyw egwyddorion o ganllawiau/adnoddau wedi'u hanelu at leoliadau nas cynhelir?
  - Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
  - Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Dysgu proffesiynol (Cwestiwn ymchwil 2)

- **(UA) Pa ddysgu proffesiynol rydych chi wedi'i gyflwyno yn yr ysgol i gefnogi'r gwaith o wireddu'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf?**
- (UA) Sut wnaethoch chi / yr ysgol benderfynu pa agweddau ar ddysgu proffesiynol i'w blaenoriaethu?
  - A arweiniodd y dysgu proffesiynol a gyflwynwyd gennych yn yr ysgol at unrhyw newidiadau mewn cynllunio neu ymarfer?
  - Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae wedi'i wneud i wireddu'r cwricwlwm yn yr ysgol i'ch dysgwyr ieuengaf?
  - A ddarparwyd y dysgu proffesiynol a gawsoch i bob athro yn yr ysgol neu dim ond y rhai sy'n gyfrifol am ddysgu sylfaen?
- (Y) Pa mor berthnasol oedd y dysgu proffesiynol a gyflwynwyd yn yr ysgol?
  - A arweiniodd at unrhyw newidiadau i gynllunio cwricwlwm?
  - A arweiniodd at unrhyw newidiadau mewn ymarfer addysgu?
  - Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae wedi'i wneud i'r cwricwlwm i'ch dysgwyr ieuengaf yn yr ysgol? Rhowch resymau neu enghreifftiau os gwelwch yn dda.
- (UA&Y) Pa fath o ddysgu proffesiynol ydych chi wedi'i weld fwyaf defnyddiol?
  - Modiwlau dysgu anghydamserol ar-lein?
  - Dysgu cydweithredol wyneb yn wyneb?
  - Fideos?
- **(UA) A yw'r ysgol wedi cael mynediad at ddysgu proffesiynol gan ddarparwyr allanol i gefnogi'r gwaith o wireddu'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf? (er enghraifft, gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol, yr awdurdod lleol, sefydliadau ymbarél, eraill)**

- (UA) Pwy ddarparodd y dysgu proffesiynol a pha agweddau ar y cwricwlwm neu addysgeg yr oedd yn canolbwyntio arnynt?
- (UA&Y) A oedd y dysgu proffesiynol a gawsoch wedi diwallu eich anghenion?
    - A oedd y dysgu proffesiynol o ansawdd da?
    - Pa nodweddion o'r dysgu proffesiynol wnaeth ei wneud o ansawdd da?
    - Beth sy'n gwahaniaethu dysgu proffesiynol effeithiol o ddysgu proffesiynol llai effeithiol?
    - Allwch chi gofio unrhyw enghreifftiau o ddysgu proffesiynol rydych chi wedi'u profi a gafodd effaith gadarnhaol ar eich ymarfer?
- (UA&Y) A arweiniodd y dysgu proffesiynol at unrhyw newidiadau i gynllunio'r cwricwlwm?
    - A arweiniodd at unrhyw newidiadau mewn ymarfer addysgu?
    - Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae wedi'i wneud i'r cwricwlwm a ddarperir i'ch dysgwyr ieuengaf yn yr ysgol? Rhowch resymau neu enghreifftiau os gwelwch yn dda.

<u>Anghenion pellach o ran canllawiau neu ddysgu proffesiynol (Cwestiwn Ymchwil 2)</u>

- **(UA&Y) A oes unrhyw gymorth pellach rydych chi'n teimlo sydd ei angen i gynorthwyo'ch ysgol i gynllunio neu wireddu'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf?**
- Os felly, pa ganllawiau neu ddysgu proffesiynol pellach ydych chi'n teimlo sy'n flaenoriaeth neu sydd ei angen fwyaf?
    - Sut allai hyn fod o fudd i'ch ysgol?

<u>Sylwadau eraill</u>

- **(UA&Y) Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â sut rydych chi'n cynllunio, dylunio a gwireddu'r cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr ieuengaf?**

# Atodiad B: Sampl ysgolion

### Primary A

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canolbarth a Gorllewin

ADY [troednodyn 12]: Isel

Maint [troednodyn13]: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1[troednodyn 14] “Rwy'n deall yr hyn y mae'n ofynnol i'm hysgol ei wneud i ddylunio cwricwlwm sy'n briodol yn addysgeg ôl ac yn ddatblygiadol i'n dysgwyr ieuengaf yn unol â dyheadau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru”: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2 “Sut fyddech chi'n disgrifio'r cynnydd rydych chi'n ei wneud fel ysgol wrth wireddu cwricwlwm sy'n briodol yn addysgegol ac yn ddatblygiadol i'ch dysgwyr ieuengaf?": Ansicr

### Cynradd B

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Isel

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno

Ymateb i ddatganiad 2: Rhywfaint o gynnydd

### Cynradd C

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

---

Troednodiadau:
[12] Tynnir data ADY/AAA o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) 2024/25 (Llywodraeth Cymru, 2026). Ni chyhoeddwyd data ar gyfer ysgolion lle mae rhwng un a phedwar o ddysgwyr gyda rhai categorïau ADY/AAA. Ar gyfer yr ysgolion hyn, neilltuwyd gwerth tybiedig o 2 ddysgwr er mwyn cyfrifo cyfanswm nifer a chanran y dysgwyr ag ADY/AAA. Ystyrir bod gan ysgolion sydd â 7% neu lai nifer 'Isel' o ddysgwyr ADY, 7.1% i 14% fel 'Canolig' a mwy na 14% 'Uchel'. Mae'r trothwyon hyn wedi cael eu defnyddio fel bod tua thraean o ysgolion a lleoliadau yn disgyn i bob categori.
[13] Yn seiliedig ar grwpiau maint ar gyfer ysgolion cynradd a ddefnyddir gan Estyn.
[14] Cynhwyswyd Datganiad 1 a 2 yn y ffurflen datgan diddordeb.

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Isel

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Ddim yn berthnasol [troednodyn 15]

Ymateb i ddatganiad 2: Ddim yn berthnasol

**Cynradd D**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Uchel

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Rhywfaint o gynnydd

**Cynradd E**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Gogledd

ADY: Canolig

Maint: Mawr

Cyfrwng iaith: Cymraeg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno rhywfaint

Ymateb i ddatganiad 2: Rhywfaint o gynnydd

**Cynradd F**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canolbarth a Gorllewin

---

Troednodyn:
[15] Nid oedd pob ysgol wedi ymateb i'r datganiadau ar y ffurflen mynegi diddordeb. Nid oedd y rhai a gysylltwyd yn uniongyrchol oherwydd eu bod wedi cydsynio i gael eu hailgysylltu ar gyfer gweithgareddau gwerthuso yn y dyfodol wrth gwblhau'r arolwg Uwch Arweinwyr ac Ymarferwyr yn cwblhau'r ffurflen mynegi diddordeb.

ADY: Canolig

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno rhywfaint

Ymateb i ddatganiad 2: Rhywfaint o gynnydd

**Cynradd G**

Math o ysgol: Cynradd, ffederasiwn: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: De-ddwyrain

ADY: Canolig / Uchel

Maint: Bach / Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Rhywfaint o gynnydd

**Cynradd H**

Math o ysgol: Cynradd: babanod ac iau

Rhanbarth: Canolbarth a Gorllewin

ADY: Canolig

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Cymraeg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno rhywfaint

Ymateb i ddatganiad 2: Ychydig o gynnydd

**Cynradd I**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Isel

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Rhywfaint o gynnydd

**Cynradd J**

Math o ysgol: Cynradd: ysgol fabanod gyda darpariaeth feithrin

Rhanbarth: Gogledd

ADY: Canolig

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno

Ymateb i ddatganiad 2: Llawer o gynnydd

**Cynradd K**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Canolig

Maint: Mawr

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Llawer o gynnydd

**Cynradd L**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Gogledd

ADY: Canolig

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Cymraeg

Ymateb i ddatganiad 1: Ddim yn berthnasol

Ymateb i ddatganiad 2: Ddim yn berthnasol

**Cynradd M**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Gogledd

ADY: Isel

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Cymraeg

Ymateb i ddatganiad 1: Ddim yn berthnasol

Ymateb i ddatganiad 2: Ddim yn berthnasol

**Cynradd N**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Isel

Maint: Mawr

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Llawer o gynnydd

**Cynradd O**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canolbarth y De

ADY: Isel

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Llawer o gynnydd

**Cynradd P**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Canolig

Maint: Canolig

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno'n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Llawer o gynnydd

**Cynradd Q**

Math o ysgol: Cynradd: meithrin, babanod ac iau

Rhanbarth: Canol De Cymru

ADY: Isel

Maint: Mawr

Cyfrwng iaith: Saesneg

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno

Ymateb i ddatganiad 2: Rhywfaint o gynnydd

**Ysgol Ganol 3-18 [troednodyn 16]**

Ymateb i ddatganiad 1: Ddim yn berthnasol

Ymateb i ddatganiad 2: Ddim yn berthnasol

**Ysgol Arbennig**

Ymateb i ddatganiad 1: Cytuno’n gryf

Ymateb i ddatganiad 2: Llawer o gynnydd

---

Troednodyn:
[16] Nid yw rhai o’r wybodaeth ddemograffig wedi'i chynnwys ar gyfer yr ysgol ganol a'r ysgol arbennig er mwyn sicrhau anhysbysrwydd.